Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru

Mehefin 2023



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Prif ganfyddiadau** | **10** |
| **Argymhellion** | **15** |
| **Aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr addysg bellach** | **16** |
| Mathau o aflonyddu rhywiol | 16 |
| Mynychder aflonyddu rhywiol | 19 |
| Lleoliadau ac amgylchiadau | 20 |
| **Rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac ymateb iddynt** | **22** |
| Amgyffrediad darparwyr o natur a maint y broblem | 22 |
| Rhoi gwybod am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion | 22 |
| Argaeledd ac effeithiolrwydd cymorth i ddioddefwyr | 25 |
| Cwmpas cyfrifoldeb colegau | 27 |
| Trefniadau, polisïau a systemau disgyblu | 28 |
| Amgyffrediad dysgwyr o rolau, cyfrifoldebau ac effeithiolrwydd staff | 29 |
| Arweiniad cenedlaethol | 30 |
| Gweithio ar y cyd a phartneriaethau | 30 |
| **Dylanwadu ar y diwylliant** | **31** |
| Addysg a datblygiad personol | 31 |
| Dysgu proffesiynol i aelodau staff | 36 |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **39** |
| **Geirfa** | **41** |
| **Cyfeiriadau** | **43** |

## Crynodeb gweithredol

Yn ystod tymor yr hydref 2022, cynhaliodd arolygwyr ymweliadau wyneb-yn-wyneb â phob un o'r deuddeg coleg addysg bellach yng Nghymru i werthuso cyffredinrwydd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac adolygu'r diwylliant a'r prosesau sy'n helpu i ddiogelu a chefnogi dysgwyr 16 i 18 oed mewn colegau. Cynhaliom weithdai â dysgwyr, siarad ag arweinwyr, athrawon a staff cymorth mewn colegau, ac edrych ar ystod eang o ddogfennau yn ymwneud â phrosesau presennol a oedd yn cynnwys achosion posibl o aflonyddu rhywiol.

Canfuom fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau yn fater cymhleth nad yw'n cael ei gofnodi'n ddigonol, gyda llawer o ddysgwyr yn dewis peidio â rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol neu ddim yn siŵr sut i roi gwybod amdanynt, am amrywiol resymau. Mae gan golegau bolisïau a phrosesau sefydledig ar gyfer disgyblu dysgwyr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin yn effeithiol â'r achosion mwyaf difrifol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y rhoddir gwybod amdanynt.

Nid yw systemau colegau i gofnodi a dadansoddi aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr yn gywir wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn rhy aml, caiff achosion o aflonyddu rhywiol eu cofnodi a'u categoreiddio o fewn dosbarthiadau bwlio cyffredinol. Dywedodd llawer o staff wrthym nad ydynt yn hyderus a'u bod yn teimlo bod angen mwy o ddatblygiad proffesiynol a diweddariadau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol.

Lle mae colegau wedi cynnal sesiynau hyfforddiant penodol ar fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, mae'r rhain wedi helpu staff i nodi achosion a mynd i'r afael â nhw'n briodol. At ei gilydd, mae prinder adnoddau penodol ar gyfer addysg bellach i gynorthwyo staff colegau i ymdrin ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion hefyd. Mae gwaith cydweithredol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wedi dechrau'n ddiweddar, ond mae'n rhy gynnar i werthuso ei effeithiolrwydd a'i effaith.

Mae ein trafodaethau â dysgwyr a staff yn awgrymu y gallai dysgwyr sy'n ystyried eu hunain yn fenywod, LHDTC+ a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn fwy tebygol o gael profiad o aflonyddu rhywiol. Mae achosion o aflonyddu rhywiol yn cynnwys cymysgedd o faterion wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Dylai'r argymhellion canlynol gynorthwyo colegau addysg bellach ymhellach yn eu gwaith i nodi a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed:

- Sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a thrafodaethau yn ymwneud â ffurfio a chynnal perthnasoedd iach
- Datblygu strategaethau i atal a mynd i'r afael ag agweddau a diwylliannau misogynistaidd sy'n datblygu ymhlith grwpiau o ddysgwyr
- Sicrhau bod yr holl aelodau staff perthnasol yn ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i nodi ac ymateb yn hyderus i aflonyddu rhywiol, yn ogystal â

helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach
- Sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo’n ddiogel ac yn gyfforddus ym mhob ardal o adeiladau, tir, mannau rhithiol a thrafnidiaeth y coleg
- Cofnodi, categoreiddio a dadansoddi achosion o aflonyddu, ymosodiadau a cham-drin rhywiol mewn ffordd gyson sy’n galluogi arweinwyr i nodi tueddiadau a chymryd camau priodol i ymateb iddynt

Dylai’r argymhellion canlynol gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn ei gwaith â cholegau addysg bellach i fonitro a mynd i’r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau:

- Ei gwneud yn glir pa agweddau ar arweiniad addysg Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol sy’n berthnasol i golegau addysg bellach a chadarnhau unrhyw wahaniaethau rhwng y gofynion mewn ysgolion a cholegau addysg bellach
- Darparu arweiniad priodol i golegau i’w helpu i fabwysiadu ymagwedd gydlynus a chyson at gofnodi a chategoreiddio achosion o aflonyddu rhywiol

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried mynychder aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ym mywydau pobl ifanc ac yn adolygu'r diwylliant a'r prosesau sy'n helpu i ddiogelu a chefnogi dysgwyr 16 i 18 oed mewn colegau addysg bellach yng Nghymru. Mae aflonyddu rhywiol yn digwydd pan fydd rhywun yn ymgymryd ag ymddygiad digroeso o natur rywiol sydd â'r bwriad neu'r effaith o:

- darfu ar urddas rhywun; neu
- greu amgylchedd bygythiol, cas, diraddiol, bychanol neu ymosodol iddynt

Mae aflonyddu rhywiol yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ein gwaith gyda dysgwyr, diffiniom aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel:

- gwneud sylwadau neu jôcs rhywiol naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein
- codi sgertiau neu dynnu llun o dan ddillad rhywun heb yn wybod iddo/iddi
- gwneud sylwadau cas am gorff, rhywedd, rhywioldeb neu olwg rhywun i achosi cywilydd, gofid neu fraw iddo/iddi
- camdriniaeth yn seiliedig ar ddelwedd, fel rhannu llun neu fideo o rywun yn noeth / hanner noeth heb gydsynydiad y sawl sydd yn y llun
- anfon ffotograffau / fideos rhywiol, cignoeth neu bornograffig digroeso at rywun

Lluniwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn y llythyr cylch gwaith blynyddol ym mis Mawrth 2022. Mae hefyd yn adlewyrchu cais tebyg gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r adolygiad hwn yn berthnasol i ddysgwyr, rhieni a cholegau, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, gwasanaethau statudol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phobl ifanc. Mae'n dilyn yr adolygiad tebyg o'r diwylliant a phrosesau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd annibynnol i ddiogelu a chefnogi pobl ifanc (Estyn, 2021).

Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o arweiniad a chymorth presennol ar gyfer colegau addysg bellach. Mae'n amlygu sut mae colegau'n datblygu a chynnal diwylliant cryf o ddiogelu sy'n hyrwyddo parch a phwysigrwydd perthnasoedd iach a chadarnhaol. Mae'r adroddiad yn rhannu sut mae arweinyddiaeth gref a dulliau rhagweithiol yn annog a grymuso dysgwyr i ymddiried yn eu tiwtoriaid, herio ymddygiad digroeso o natur rywiol a rhoi gwybod am bob math o aflonyddu a cham-drin rhywiol. Mae hefyd yn nodi'r ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar les dysgwyr.

Caiff yr arfer effeithiol a'r diffygion a welwyd gan arolygwyr yn ystor yr ymweliadau â'r colegau eu trafod, ar sail ymweliadau â phob un o'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddysgwyr 16 i 18 oed yn unig. Yn ystod yr ymweliadau hyn, cafodd arolygwyr drafodaethau uniongyrchol â dysgwyr ifanc mewn gweithdai rhyngweithiol. Cafodd dysgwyr a gymerodd ran yn y gweithdai drafodaethau agored ag arolygwyr a rhannu adborth ysgrifenedig a llafar â nhw am eu profiadau a'u dealltwriaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Caiff

canfyddiadau o'r gweithgareddau mewn grwpiau ffocws â dysgwyr ym mhob coleg eu crynhoi. Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio dyfyniadau uniongyrchol gan ddysgwyr a staff ac, o ganlyniad, mae'r adroddiad yn cynnwys geiriau ac ymadroddion a allai beri gofid i ddarllenwyr.

Yn ystod ymweliadau, siaradodd arolygwyr ag arweinwyr a staff colegau hefyd am ddarpariaeth fugeiliol a thiwtorial, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb. Holom arweinwyr a staff am natur a mynychder aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a sut mae colegau'n rheoli hyn ac yn cefnogi eu dysgwyr.

Ymwelom â cholegau addysg bellach yn ystod tymor yr hydref 2022. Roedd hyn yn ystod cyfnod arbennig o heriol pan roedd dysgwyr a staff colegau yn dychwelyd i bresenoldeb eang yn y coleg lle roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau dysgu yn cael eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb. Gweithiom â thros 250 o ddysgwyr a thros 150 o staff yn ystod ein hymweliadau. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff a dysgwyr colegau am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod cyfnod prysur a heriol. Ymatebodd pob un o brif swyddogion gweithredol a phenaethiaid y colegau yn gadarnhaol i'n cais i'w colegau gymryd rhan yn y gwaith hwn, gan fod pob un ohonynt yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Yn ogystal â thystiolaeth a gafwyd o ymweliadau â cholegau, mae'r adroddiad hefyd yn cynnig crynodeb a dadansoddiad o holiadur ar-lein y gwahoddwyd staff ym mhob coleg addysg bellach i'w lenwi. Roedd yr holiadur ar agor i'w lenwi rhwng 21 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2022 a chafwyd 587 o ymatebion. Roedd yr holiadur yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau caeedig a phenagored, a dadansoddwyd yr ymatebion penagored i nodi themâu allweddol.

Cysylltom â sawl rhanddeiliad allanol perthnasol. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i gydweithwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Plant ac NSPCC Cymru am eu cymorth wrth gynllunio'r gweithgareddau a'r hyfforddiant wedi'i deilwra a roesant i arolygwyr cyn iddynt ymweld â'r colegau.

# Cefndir

## Mynychder

Canfu ein hadroddiad ar brofiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' (Estyn, 2021), fod hanner yr holl ddisgyblion wedi cael profiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Canfu ein hadroddiad hefyd, yn gyffredinol, nad yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon pan fyddant yn cael profiad o aflonyddu rhywiol, am nifer o resymau. Mae hyn oherwydd ei fod yn digwydd mor aml, mae disgyblion yn teimlo ei fod wedi dod yn ymddygiad sydd wedi'i normaleiddio ac y byddai achosion tebyg yn cael eu hwfftio fel materion dibwys neu y byddant yn cael eu hannog i anwybyddu'r broblem.

Yn yr un modd, canfu adroddiad gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) (2019) fod bron i hanner yr holl ymatebwyr wedi cael profiad o ryw fath o aflonyddu rhywiol o leiaf unwaith. Roedd yr arolwg hwn wedi'i anelu at ddysgwyr mewn addysg bellach yn y DU ac roedd yn dadansoddi ymatebion gan dros 500 o ddysgwyr. Roedd y mathau o aflonyddu y cafwyd profiad ohonynt yn amrywio, ond roeddent yn cynnwys sylwadau rhywiol digroeso wyneb-yn-wyneb a thrwy gyfryngau cymdeithasol; bod dan bwysau i gael perthynas rywiol; a chael eu stelcian. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y materion hyn yn cael eu 'normaleiddio' a'u 'goddef'. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun ehangach mudiad 'Me Too', sef mudiad cymdeithasol yn erbyn cam-drin rhywiol ac aflonyddu rhywiol. Nod y mudiad yw grymuso dioddefwyr i dorri eu mudandod a chael empathi a chefnogaeth gan bobl eraill.

## Dioddefwyr a chyflawnwyr

Nododd adolygiad Ofsted o ymchwil bresennol ar gyfer ei adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau yn 2021 *'Er y gall unrhyw un brofi aflonyddu a thrais rhywiol, mae ymchwil yn dangos bod merched yn cael eu heffeithio'n anghymesur.'* (Ofsted, 2021). Yn ein hadroddiad yn ymwneud ag ysgolion (Estyn, 2021), canfuom dystiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu bod dwywaith gymaint o ferched na bechgyn wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Yn ôl briff ymchwil Tŷ'r Cyffredin, *'Mae myfyrwyr anabl a myfyrwyr LHDTC+ hefyd yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ymddygiad rhywiol digroeso.'* (2022, t.6). Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai aflonyddu rhywiol sydd wedi'i seilio ar rywedd neu ryw gael ei ddylanwadu gan nodweddion gwarchodedig eraill hefyd. Canfu Arolwg Aflonyddu Rhywiol 2020, sef arolwg cynrychioliadol cenedlaethol o'r DU, *'Dywedodd tri chwarter y rhai a oedd wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol yn ystod y 12 mis diwethaf fod nodwedd warchodedig arall yn ffactor yn eu profiad.'* (Llywodraeth y DU, 2020, t.93).

Mae tystiolaeth gan NUS yn awgrymu bod pedwar o bob deg o ddioddefwyr yn enwi eu partner blaenorol fel y sawl sydd wedi cyflawni'r aflonyddu rhywiol a brofwyd ganddynt (NUS, (2019). Roedd gweithgareddau 'dial' yn ffurf gyffredin ar aflonyddu,

fel rhannu delweddau noeth. Mae briff ymchwil Tŷ'r Cyffredin yn mynd ymhellach i awgrymu ym mwyafrif yr achosion o stelcian, ymosodiad rhywiol a thrais corfforol, bod y dioddefwr eisoes yn adnabod y cyflawnwr (2022).

## Lleoliadau

Mae ymchwil gan NUS yn datgan bod mwyafrif yr achosion o aflonyddu rhywiol wyneb-yn-wyneb mewn colegau yn digwydd y tu allan i amser mewn dosbarthiadau mewn mannau cyhoeddus, fel ar y stryd, ar gludiant cyhoeddus ac mewn clybiau nos (2019). Fodd bynnag, rhannodd rhai pobl ifanc eu bod wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol ar dir y coleg hefyd, ac yn ystod gwersi hyd yn oed.

Yn ein hadroddiad yn 2021, dywedodd disgyblion fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn digwydd mwy ar-lein nag yn yr ysgol. Mae aflonyddu rhywiol ar-lein, sy'n digwydd trwy ystod o blatfformau digidol, yn dwyn sawl ffurf gan gynnwys rhannu cynnwys rhywiol digroeso, cam-drin rhywiol wedi'i seilio ar ddelweddau, gorfodaeth rywiol, bygythiadau a dychryn.

Yn 2021, cynhaliodd Ringrose et al astudiaeth o aflonyddu a cham-drin rhywiol wedi'i seilio ar ddylweddau a ystyriodd farn 480 o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed ar draws y DU. Nododd canfyddiadau'r arolwg fod ychydig dros hanner y cyfranogwyr wedi cael cynnwys rhywiol digroeso ar-lein neu fod delwedd ohonynt wedi'i rhannu heb eu cydsyniad. *'Pan ofynnwyd iddynt pam na roesant wybod am y digwyddiad, dywedodd tua thraean o bobl 'Dwi ddim yn credu bod rhoi gwybod amdano'n gweithio'* (2021, t.50). Mae'r canfyddiadau'n mynd ymlaen i ddweud bod tri chwarter o'r merched a gymerodd ran wedi rhannu eu bod wedi cael lluniau digroeso o organau cenhedlu gwrywod. Er bod rhywfaint o rannu delweddau yn gydsyniol ac nad yw'n gyfystyr ag aflonyddu, mae ymchwil gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2021) yn nodi bod 8.5% o ddysgwyr rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru wedi anfon delwedd gignoeth o'u hunain at rywun.

Mae aflonyddu rhywiol ar-lein yn bryder cynyddol i sefydliadau addysgol gan fod ffyrdd niferus ac amrywiol o ddefnyddio platfformau digidol a dulliau o rannu, ac mae merched yn eu harddegau yn cael eu heffeithio mwy nag unrhyw grŵp arall (Ringrose et al, 2020).

## Effaith

Gall effaith ymddygiad rhywiol digroeso ar y dioddefwr ddod i'r amlwg mewn sawl ffordd, fel yr amlinellir gan NUS (2019). Crybwyllodd ymatebwyr orbryder, awydd i ymbellhau oddi wrth bobl eraill, tynnu'n ôl o ddigwyddiadau cymdeithasol, newydd y ffordd roeddent yn gwisgo a pheidio â mynd i'w dosbarthiadau o ganlyniad i'w profiadau. Rhannodd tua thraean eu bod wedi teimlo'n isel a chrybwyllodd 13% nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn y coleg mwyach, gyda'r un nifer yn crybwyll eu bod wedi troi at gyffuriau ac alcohol fel dulliau ymdopi. Mewn achosion mwy eithafol, roedd y bobl ifanc yr effeithiwyd arnynt wedi ystyried hunan-niweidio neu ladd eu hunain, sef 13% a 15% yn y drefn honno, ac roedd 7% ohonynt wedi ceisio lladd eu hunain.

Caiff y canfyddiadau hyn eu hatseinio mewn adolygiad o lenyddiaeth academaidd gan Our Streets Now. Mae Our Streets Now yn fudiad i ddod ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus i ben yn y DU trwy newid diwylliannol a deddfwriaethol. Dywed y sefydliad hwn, sy'n ymgyrchu dros hawl menywod, merched a rhyweddau sydd ar y cyrion i fod yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus:

> *Mae ymchwil flaenorol a phrofiadau byw yn dangos bod aflonyddu rhywiol cyhoeddus yn creu teimlad cyson o ansicrwydd ac ofn, yn enwedig i'r rhai sydd wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol cyhoeddus o'r blaen. Maent yn newid eu hymddygiad i osgoi aflonyddu rhywiol cyhoeddus, fel peidio â gwisgo dillad penodol, peidio â gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored, newid yr amser y maent yn teithio, cymryd llwybrau gwahanol, peidio â mynd allan ar eu pennau eu hunain neu beidio â mynd allan o gwbl. Mae ofn, dicter a phryder yn gyffredin ymhlith dioddefwyr ar adeg y weithred o aflonyddu rhywiol a gall arwain at fwy o bryder, iselder, hunan-niweidio, allgau cymdeithasol, euogrwydd a llai o hunan-barch yn y tymor hwy hefyd. Mewn rhai achosion, gall profiadau o aflonyddu rhywiol cyhoeddus achosi anhwylder straen ôl-drawmatig neu sbarduno pyliau o anhwylder straen ôl-drawmatig, yn enwedig ymhlith pobl sydd wedi cael profiadau blaenorol o drawma neu gam-drin rhywiol.* (Our Streets Now, heb ei ddyddio))

### Rôl y darparwr

Yn yr un modd ag ysgolion a darparwyr addysg eraill, mae gan golegau addysg bellach gyfrifoldeb i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol ac ymateb yn briodol i unrhyw achosion. Dywed adroddiad NUS ar Drais Rhywiol mewn Addysg Bellach:

> *Gyntaf yn y byd y gallwn ehangu ein dealltwriaeth o ffeministiaeth ac addysgu pobl ifanc am aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol, ynghyd â chysylltiadau rhywedd iach a thrawsnewidiol – gyntaf yn y byd y byddwn yn gallu cael gwared ag ymddygiad ac agweddau gwenwynig sy'n atgynhyrchu ac yn diriaethu eu hunain ym meddyliau pobl ifanc.* (NUS, 2019, t.2).

Canfu'r un adroddiad mai dim ond 14% o'r rhai a oedd wedi cael profiad o ryw fath o ymddygiad rhywiol digroeso a oedd wedi rhoi gwybod amdano. O'r rhai a roddodd wybod amdano, dim ond 22% ohonynt a roddodd wybod i'w coleg. Yn ddiddorol, roedd y rhesymau dros beidio â rhai gwybod am yr achosion hyn yn cynnwys nad oeddent o'r farn eu bod yn ddigon difrifol ac nad oedd yn cael ei ystyried yn ymddygiad amheus. Roedd rhesymau eraill dros beidio â rhoi gwybod amdano yn cynnwys teimlo'n annifyr ac ofn o beidio â chael eu credu. Dywedodd un o bob pump (20%) na fyddant yn rhoi gwybod amdano gan nad oeddent yn gwybod i bwy y dylent roi gwybod, sy'n awgrymu diffyg gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol digroeso. Cyfeiriodd ymatebwyr at ddiffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau addysg bellach hefyd ac, er ben hynny, diffyg eglurder ynghylch safbwynt colegau ar faterion felly (NUS, 2019).

Er gwaethaf y diffyg ymddiriedaeth amlwg a awgrymir gan y ffigurau hyn, mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau bolisïau a gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb o ran ymagweddau'r colegau, gan fod gan rai ohonynt bolisïau penodol ar y mater hwn, tra

yr eir i'r afael ag aflonyddu rhywiol trwy bolisïau eraill mewn rhai sefydliadau, fel bwlio ac aflonyddu cyffredinol, ymddygiad myfyrwyr, a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae briff ymchwil Tŷ'r Cyffredin (2022) yn cydnabod bod gan golegau addysg bellach y gofyniad ychwanegol i ddilyn trefniadau diogelu statudol wrth ymateb i'r mater hwn mewn lleoliadau sy'n derbyn myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed. Ar ben hynny, mae rhai sefydliadau addysg bellach hefyd yn gweithio â disgyblion ysgolion hyd yn oed iau trwy weithgareddau cyswllt ag ysgolion a rhaglenni prentisiaeth iau. Mae colegau addysg bellach hefyd yn cynnig cyfleoedd addysg a hyfforddiant gwerthfawr i lawer o oedolion sy'n ddysgwyr, sy'n ychwanegu at y cymhlethdod a'r her o gadw pob dysgwr yn ddiogel yn yr un amgylchedd.

Cyhoeddodd ymgyrch Reclaim the Campus, sy'n grŵp ymgyrchu dan arweiniad myfyrwyr a goroeswyr sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol sy'n cael eu profi gan y rhai sydd mewn addysg uwch, adroddiad yn 2021 a oedd yn edrych ar bolisïau ar draws 41 o sefydliadau addysg uwch yn y DU. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion, ac er eu bod yn canolbwyntio ar ddarparwyr addysg uwch, gallant fod yn berthnasol mewn lleoliadau addysg bellach. Roedd y rhain yn cynnwys bod â pholisïau penodol ar waith ar gyfer camymddygiad rhywiol, casglu a dadansoddi data, adolygu polisïau'n flynyddol, bod â dulliau adrodd clir ar waith, pennu cosbau clir i gyflawnwyr a chyflogi Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol i gynnig cefnogaeth briodol i ddioddefwyr.

Yn dilyn Adolygiad Ofsted o Gam-drin Rhywiol mewn Ysgolion a Cholegau, cydnabu'r Adran Addysg yn Llywodraeth y DU yr angen am fwy o gefnogaeth i staff yn ymwneud â'r mater hwn. Crybwyllodd datganiad Llywodraeth y DU i'r wasg, *'Caiff arweinwyr ysgolion a cholegau eu hannog i glustnodi amser yn ystod diwrnod HMS i helpu i hyfforddi staff ar sut i ymdrin â cham-drin ac aflonyddu rhywiol ymhlith disgyblion a sut i gyflwyno cwricwlwm gorfodol newydd y Llywodraeth ar gyfer Addysg Cydberthynas, Rhywioldeb ac Iechyd (RSHE)'* (Llywodraeth y DU, 2021).

Yn dilyn ein hadolygiad cynharach o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion (Estyn, 2021), cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd adroddiad ymchwiliad polisi (2022), sy'n datganiad bod achosion aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gymhleth ac yn adlewyrchu materion diwylliannol sydd wedi'u gwreiddio ac agweddau cymdeithasol dwfn sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i golegau a darparwyr addysg eraill.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru i leoliadau addysg ar gam-drin rhywiol, cam-fanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion (a luniwyd ar y cyd ag NSPCC a Barnado's) yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a'r rhan y gall addysg ei chwarae mewn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith pobl ifanc mewn lleoliadau addysg. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at hyrwyddo *'diwylliant lle na chaiff bwlio ac aflonyddu rhywiol fyth ei oddef na'i ddiystyru fel 'cellwair'* (Llywodraeth Cymru 2020, t.14). Mae'r un adroddiad hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio â phartneriaid allanol i sicrhau ymateb cyflawn a gwybodus sy'n ystyried pob safbwynt.

> *Wrth ystyried digwyddiadau o'r fath, mae'n bwysig canfod a yw'r ymddygiad yn ddigwyddiad ynysig, ynteu'n rhan o batrwm sy'n ailadrodd. Er y gellir galw digwyddiadau ynysig yn achosion o ymddygiad amhriodol, gallai patrwm*

> *ailadroddus o aflonyddu rhywiol fod yn arwydd o ymddygiad problemus o dan gontinwwm Hackett* (Llywodraeth Cymru, 2020, t.10).

I gynorthwyo addysgwyr i godi ymwybyddiaeth a darparu cynnwys yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu ystod o adnoddau trwy Hwb, sef ei phlatfform i ddarparu gwasanaethau ac adnoddau digidol i leoliadau addysg. Mae’r adnoddau yn y pecyn cymorth, Codi Llaw Codi Llais (2021), yn cynnwys deunyddiau ac arweiniad wedi’u bwriadu ar gyfer pobl ifanc rhwng 13 a 17 oed, ac fe’u datblygwyd yn benodol ar gyfer uwch arweinwyr, athrawon a dysgwyr. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddeunyddiau sydd wedi’u bwriadu’n benodol ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 18 oed mewn colegau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hyn trwy brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy’n cynnwys Prifysgol Caerdydd a saith o golegau addysg bellach yng Nghymru.

# Prif ganfyddiadau

## Aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr addysg bellach

1 At ei gilydd, mae dysgwyr addysg bellach (AB) yn cydnabod llawer o enghreifftiau o aflonyddu rhywiol fel ymddygiad maent naill ai wedi'i weld neu ei brofi eu hunain. Dywedon nhw wrthym mai sylwadau neu jôcs rhywiol digroeso (naill ai wyneb-yn-wyneb neu ar-lein) neu sylwadau cas am gorff, rhywedd, rhywioldeb neu olwg rhywun i achosi cywilydd, gofid neu fraw yw'r mathau mwyaf cyffredin. Yn benodol, mae dysgwyr benywaidd a LHDTC+ yn aml yn cael sylwadau digroeso am eu golwg neu sut maent yn edrych. Dywed dysgwyr benywaidd eu bod nhw a'u ffrindiau benywaidd yn cael negeseuon, delweddau neu sylwadau digroeso o natur rywiol yn aml. Dywedodd arweinwyr colegau wrthym mai dysgwyr benywaidd, dysgwyr LHDTC+ neu ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dioddef aflonyddu rhywiol gan amlaf.

2 Mae colegau'n ei chael hi'n anodd monitro ymddygiad dysgwyr tuag at ei gilydd ar-lein. Yn gynyddol, mae dysgwyr yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain yn ddilys mewn lleoliadau AB; mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn canfod aflonyddu a cham-drin ar-lein ac adnabod y rhai sy'n ei gyflawni. Yn gyffredinol, mae dysgwyr benywaidd yn cael delweddau cignoeth digroeso mor aml fel nad ydynt yn eu hystyried yn anghyffredin. Caiff llawer o'r delweddau hyn eu hanfon drwy blatfformau neu apiau sy'n eu dileu ychydig eiliadau ar ôl iddynt gael eu gweld. Yn aml, nid yw'r rhai sy'n eu derbyn yn gwybod a ydynt yn adnabod y rhai sy'n eu hanfon neu a ydynt yn gwbl ddieithr iddynt.

3 Dywed dysgwyr ei fod yn anghyffredin iawn i ddysgwyr eraill yn y coleg dynnu lluniau neu fideos amhriodol yn gudd. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol o luniau'n cael eu tynnu 'dros yr ysgwydd' ac yn cael eu defnyddio gan ddysgwyr i wneud hwyl am ben golwg neu ddullweddau pobl eraill. Pan gaiff delweddau amhriodol o ddysgwyr eu rhannu, mae'r rhain yn aml yn cael eu hanfon yn gydsyniol at bartner mewn perthynas ramantus, ond cânt eu rhannu'n ehangach yn ddiweddarach heb gydsyniad; yr enw cyffredin ar hyn yw 'pornograffi dial'.

4 At ei gilydd, mae dysgwyr gwrywaidd yn credu bod aflonyddu rhywiol yn aml yn digwydd oherwydd bod bechgyn yn ceisio denu merched neu ddangos eu hunain i'w ffrindiau, ond eu bod yn mynd yn rhy bell ac yn 'gwneud pethau'n anghywir'. Dywedodd dysgwyr wrthym fod y mathau hyn o ymddygiad yn fwyaf cyffredin ymhlith y rhai o feysydd galwedigaethol neu gwricwlaidd, timau chwaraeon a grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u dominyddu gan wrywod. Fel rhan o duedd sy'n peri pryder penodol, mae ychydig o ddysgwyr gwrywaidd yn mabwysiadu ac yn dynwared agweddau a chredoau rhywiaethol a misogynistaidd dylanwadwyr ar-lein.

5 Yn aml, mae aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol sydd wedi'u cyfeirio at ddysgwyr gwrywaidd gan ddysgwyr gwrywaidd eraill yn cael eu hystyried ganddynt yn herian neu 'gellwair'; maent yn honni mai anaml iawn y mae ysgogiad rhywiol i hyn. Mae

perygl i'r math hwn o ymddygiad ac agwedd gam-ystumio'r amgyffrediad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad derbyniol.

6 Mae dysgwyr yn crybwyll, er bod aflonyddu rhywiol yn digwydd yn y coleg, mae'r achosion mwyaf difrifol yn digwydd mewn lleoliadau cymdeithasol y tu allan i'r coleg lle mae yfed a chamddefnyddio sylweddau yn digwydd. Nid yw llawer o ddysgwyr yn teimlo ei bod yn briodol rhoi gwybod i aelodau staff am achosion sy'n digwydd y tu allan i'r coleg.

7 Mewn ychydig o leoedd ar dir ac yn adeiladau'r colegau, gall dysgwyr deimlo'n anghyfforddus a'u bod wedi'u hamgylchynu. Gall y rhain ddod yn 'ardaloedd gwaharddedig' sydd wedi'u dominyddu gan grwpiau o ddysgwyr, gwrywod yn aml, sy'n dychryn ac yn aflonyddu ar ddysgwyr eraill ac aelodau staff hyd yn oed yn rheolaidd. Yn yr un modd, mae dysgwyr yn dioddef aflonyddu ar fysiau cyhoeddus neu fysiau'r coleg ac wrth arosfannau bysiau.

### Rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac ymateb iddynt

8 Yn gyffredinol, nid oes gan arweinwyr colegau ddarlun clir o raddau aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Maent yn cael trafferth cael amcan cywir o faint y broblem oherwydd y cyfraddau isel o achosion y rhoddir gwybod amdanynt a'r diffyg eglurder ymhlith aelodau staff, a dysgwyr yn benodol, ynghylch diffiniad aflonyddu rhywiol. Mae dulliau cofnodi data mewn perthynas ag achosion o aflonyddu rhywiol yn anghyson ar draws y sector hefyd.

9 Dywedodd colegau wrthym fod achosion o aflonyddu rhywiol wedi cynyddu o gymharu ag yn ystod y cyfnodau clo ar ôl dychwelyd i ddysgu ar y campws, er bod nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi yn isel o hyd. Mae ymgyrchoedd amlwg ar gyfryngau cymdeithasol, fel 'Me Too' ac 'Everyone's Invited', wedi codi ymwybyddiaeth gyffredinol o aflonyddu rhywiol.

10 Mae arweinwyr a llywodraethwyr colegau yn cael adroddiadau rheolaidd am ddigwyddiadau diogelu, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu, ond yn aml, nid yw'r rhain yn cynnwys ymagwedd systematig tuag at nodi tueddiadau mewn achosion o aflonyddu a cham-drin rhywiol. Mae ychydig o golegau yn dechrau mynd i'r afael â hyn, er enghraifft trwy systemau diogelu ar-lein newydd. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn.

11 Mae llawer o ddysgwyr yn dueddol o beidio â rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol am resymau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys teimlo bod y mathau hyn o ymddygiad wedi'u normaleiddio, ofn teimlo embaras, diffyg hyder y byddai'r achosion yn cael eu cymryd o ddifrif neu boeni am y posibilrwydd o gael eu hynysu oddi wrth eu grwpiau ffrindiau presennol. Hefyd, mae dysgwyr gwrywaidd yn llai ymwybodol o sut i fanteisio ar gymorth, yn gyffredinol, neu'n aml yn anfodlon gwneud hynny. Dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn fwy tebygol o lawer o ddweud wrth ffrind na rhoi gwybod i staff y coleg neu riant am ddigwyddiadau.

12 Mae ychydig o golegau'n mabwysiadu ymagweddau mwy rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ac annog dysgwyr i roi gwybod i'r coleg am unrhyw achosion maent yn cael profiad ohonynt. Mae'r rhan

fwyaf o golegau'n cynnig ystod eang o ddulliau i ddysgwyr godi pryderon, er bod ymwybyddiaeth o'r rhain yn aml yn rhy amrywiol. Mae'r colegau hyn hefyd yn dwysau eu hymdrechion i annog yr holl staff i herio ymddygiad amhriodol a chofnodi unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol.

13 Yn aml, mae colegau'n defnyddio systemau monitro i nodi ac olrhain gweithgareddau ar-lein amhriodol fel rhan o'u hymdrechion i leihau a mynd i'r afael â chamddefnyddio technoleg. Fodd bynnag, caiff yr ymdrechion hyn eu llesteirio'n aml pan fydd dysgwyr yn defnyddio eu dyfeisiau a'u cysylltiadau data symudol personol eu hunain.

14 Fel arfer, gall dysgwyr fanteisio ar gymorth trwy staff bugeiliol a thiwtoriaid personol, swyddogion lles a staff cwnsela, fel y bo'n briodol. Mae ychydig o golegau'n cynnig dulliau cymorth ar-lein drwy'r dydd a'r nos hefyd. Mae ymwybyddiaeth o'r ffynonellau cymorth hyn yn amrywio. Mae llawer o ddysgwyr sydd wedi manteisio ar gymorth pwrpasol gan dimau gwasanaethau a lles dysgwyr yn canmol pa mor groesawgar a chynorthwyol y mae'r aelodau staff hyn.

15 Mae'r gallu i fanteisio ar wasanaethau cymorth allanol, fel nyrsys iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, yn rhy amrywiol rhwng ac ar draws rhanbarthau ac mae hyn yn ychwanegu at y rhwystredigaeth y mae dysgwyr, rhieni a staff colegau yn ei phrofi. Yn yr achosion gorau, mae colegau a'u dysgwyr yn elwa ar weithwyr ieuenctid ar y safle a chymorth gan swyddog heddlu dynodedig, yn ogystal â chynrychiolaeth y coleg ar fyrddau diogelu lleol.

16 Mae gan golegau bolisïau a systemau disgyblu sefydledig. Er bod y rhain ar gael yn eang ar wefannau colegau, pyrth dysgwyr neu mewn llawlyfrau dysgwyr, dywedodd dysgwyr wrthym y byddai'n ddefnyddiol iddynt pe byddent yn cynnwys cyfeiriadau penodol at gosbau disgyblu posibl y gellid eu defnyddio yng nghyd-destun achosion o aflonyddu rhywiol ac enghreifftiau ohonynt.

17 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n ymateb yn briodol ac yn effeithiol i'r achosion mwyaf difrifol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y rhoddir gwybod amdanynt. Mae ychydig o golegau'n cydweithio'n dda iawn â'i gilydd i ddefnyddio dulliau asesu risg sydd wedi'u rheoli'n ofalus i ddarparu cymorth priodol i bob parti sy'n gysylltiedig â honiadau o aflonyddu neu gam-drin rhywiol.

18 Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn canmol y Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, er bod staff yn aml yn llai clir ynghylch pa ddogfennau arweiniad allweddol eraill sy'n gymwys yng nghyd-destun colegau addysg bellach. Mae dysgwyr a staff colegau hefyd yn llai clir ynghylch i ba raddau y mae'r coleg yn gyfrifol am ymateb i achosion sy'n digwydd y tu allan i'r coleg.

19 Mae prinder adnoddau penodol ar gyfer addysg bellach i gynorthwyo staff colegau i ymdrin ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Ar hyn o bryd, mae sawl coleg yn gweithio ar brosiect cydweithredol ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, wedi'i gefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â'r mater hwn.

### Dylanwadu ar y diwylliant

20 Mae colegau'n ymgymryd â rôl werthfawr mewn cefnogi ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion cymdeithasol, moesol ac ymddygiadol. Yn rhan o hyn, mae rhaglenni

tiwtorial yn mynd i'r afael ag ystod eang o bynciau pwysig fel arfer. Fodd bynnag, nid yw colegau'n gwerthuso cynnwys ac ansawdd y sesiynau tiwtorial hyn yn gyson. Mae rhai colegau'n cydweithio â'i gilydd i ddatblygu a rhannu adnoddau digidol i ychwanegu at y rhaglenni tiwtorial yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae ychydig o golegau'n dibynnu gormod ar ddysgwyr yn ymgymryd â phecynnau hunanastudio ar-lein ac nid oes digon o ddysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp gwerthfawr, wedi'u harwain yn dda yn ymwneud â'r materion pwysig hyn. Dim ond 17% o'r ymatebwyr i'r holiadur staff a grybwyllodd fod eu coleg yn gwneud trefniadau i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau am berthnasoedd, cydsyniad neu aflonyddu.

21 Mae lleiafrif o golegau wedi cryfhau eu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn ddiweddar ac mae ychydig ohonynt wedi dechrau sefydlu diwylliant 'dim esgus' i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y datblygiadau hyn.

22 Mae lleiafrif o golegau wedi sefydlu sesiynau i ddysgwyr am berthnasoedd iach sy'n mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a chydsyniad. Maent yn cynnal gweithdai targedig sy'n ymdrin â materion fel cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a thrais domestig, sy'n aml yn cael eu cynnal gan asiantaethau allanol arbenigol. Fodd bynnag, at ei gilydd, dim ond ychydig o ddysgwyr AB sy'n cymryd rhan mewn sesiynau neu weithdai sy'n mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol.

23 At ei gilydd, mae colegau'n rhy anghyson o ran sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion ac yn elwa ar ddysgu a gweithgareddau trafod cysylltiedig. Dim ond tua hanner yr ymatebwyr i'r holiadur staff oedd yn teimlo bod eu coleg rhywfaint yn effeithiol neu'n well o ran sicrhau bod dysgwyr yn deall aflonyddu rhywiol ac yn parchu'r angen am gydsyniad rhywiol mewn perthnasoedd iach.

24 Crybwyllodd tua hanner yr ymatebwyr i'r holiadur staff y byddant yn hyderus wrth arwain sesiwn ar 'aflonyddu rhywiol', 'cydsyniad' neu 'berthnasoedd iach' gyda'u dysgwyr. Dim ond lleiafrif ohonynt sy'n teimlo mai athrawon, gan gynnwys y rhai sydd â rolau bugeiliol, sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r sesiynau hyn, a byddai'n well gan aelodau staff pe byddai arbenigwyr yn gwneud hyn. Mae aelodau staff yn teimlo bod angen darparu addysg ychwanegol i ddysgwyr ar bynciau aflonyddu rhywiol a pherthnasoedd iach, yn ogystal â darparu hyfforddiant ychwanegol iddyn nhw'u hunain.

25 Mae lleiafrif o golegau'n gweithio tuag at ddod yn sefydliadau sy'n ystyriol o drawma, gydag ymwybyddiaeth werthfawr o sut gall ymddygiad dysgwyr newid o fod yn iach i fod yn niweidiol. Mae ychydig o golegau wedi cynnal digwyddiadau hyfforddiant penodol i staff ar aflonyddu rhywiol ac mae lleiafrif ohonynt yn bwriadu gwneud hynny cyn bo hir. Mae'r rhain wedi helpu aelodau staff i gydnabod achosion a'u hatgyfeirio i arweinwyr diogelu.

26 Mae ychydig o golegau'n trefnu gweithdai i garfannau o ddysgwyr a'u hathrawon/staff cymorth er mwyn ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol, rhywiaeth neu lle mae elfen o ddiwylliant misogynistaidd mewn maes penodol. Fodd bynnag, nid oes digon o golegau'n dwyn ymagwedd ragweithiol tuag at ddarparu hyfforddiant i aelodau staff cyn i achosion neu broblemau gael eu nodi.

27 Mae ychydig llai na hanner yr ymatebwyr i'r holiadur staff yn teimlo bod lefel yr hyfforddiant ar adnabod aflonyddu rhywiol, cydsyniad a pherthnasoedd iach, ymateb iddynt a helpu dysgwyr i'w deall yn 'lled gywir'. Mae ychydig o aelodau staff unigol yn nodi ac yn ymgymryd â chyrsiau datblygiad proffesiynol allanol yn rhagweithiol sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. At ei gilydd, nid yw colegau'n darparu digon o gyfleoedd dysgu proffesiynol yn ymwneud â pherthnasoedd iach, aflonyddu rhywiol a chasineb at fenywod.

28 Mae ychydig dros hanner yr aelodau staff yn teimlo y gallant fanteisio ar gymorth ac arweiniad addas i'w helpu i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Teimlai lleiafrif ohonynt y dylai cymorth ac arweiniad tebyg fod yn well.

## Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach:**

A1 Sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a thrafodaethau yn ymwneud â ffurfio a chynnal perthnasoedd iach

A2 Datblygu strategaethau i atal a mynd i'r afael ag agweddau a diwylliannau misogynistaidd sy'n datblygu ymhlith grwpiau o ddysgwyr

A3 Sicrhau bod yr holl aelodau staff perthnasol yn ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i nodi ac ymateb yn hyderus i aflonyddu rhywiol, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach

A4 Sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ym mhob ardal o adeiladau, tir, mannau rhithiol a thrafnidiaeth y coleg

A5 Cofnodi, categoreiddio a dadansoddi achosion o aflonyddu, ymosodiadau a cham-drin rhywiol mewn ffordd gyson sy'n galluogi arweinwyr i nodi tueddiadau a chymryd camau priodol i ymateb iddynt

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Ei gwneud yn glir pa agweddau ar arweiniad addysg Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol sy'n berthnasol i golegau addysg bellach a chadarnhau unrhyw wahaniaethau rhwng y gofynion mewn ysgolion a cholegau addysg bellach

A7 Darparu arweiniad priodol i golegau i'w helpu i fabwysiadu ymagwedd gydlynus a chyson tuag at gofnodi a chategoreiddio achosion o aflonyddu rhywiol

## Aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr addysg bellach

Mae dysgwyr rhwng 16 a 18 oed mewn colegau AB yn profi ystod eang o aflonyddu rhywiol. Mae mynychder yr achosion o aflonyddu yn uchel ac roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod llawer o enghreifftiau o aflonyddu rhywiol fel ymddygiad roeddent naill ai wedi'i weld neu wedi cael profiad personol ohono.

### Mathau o aflonyddu rhywiol

Dywedodd dysgwyr wrthym mai sylwadau neu jôcs rhywiol digroeso (naill ai wyneb-yn-wyneb neu ar-lein) neu sylwadau cas am gorff, rhywedd, rhywioldeb neu olwg rhywun i achosi cywilydd, gofid neu fraw yw'r mathau mwyaf cyffredin. Mae aelodau staff, yn enwedig y rhai mewn rolau rheng flaen, yn cydnabod hyn hefyd.

> *Y mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu yn fy mhrofiad i yw'r sylwadau a'r sgyrsiau hynny y mae rhai yn eu hystyried yn gellwair yn y dosbarth yn unig. Mae angen amlygu'r ffaith bod yr agweddau hyn ar aflonyddu rhywiol yn annerbyniol, yn yr un modd ag achosion mwy amlwg o aflonyddu yn y coleg.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

Dywed dysgwyr benywaidd yn benodol eu bod nhw a'u ffrindiau benywaidd yn cael negeseuon, delweddau neu sylwadau digroeso o natur rywiol, yn aml. Crybwyllodd dysgwyr benywaidd a LHDTC+ eu bod yn aml yn cael sylwadau digroeso am eu golwg neu sut maent yn edrych, hefyd. Mae'r mathau o aflonyddu rhywiol sy'n digwydd yn cael eu dylanwadu gan ffactorau lleol a ffactorau ehangach hefyd. Yn lleol, mae'r diwylliant ymhlith pobl ifanc a chynllun campws y coleg, gan gynnwys pa mor hawdd ydyw i fonitro, yn ffactorau. Yn ehangach, mae pa mor hawdd ydyw i fanteisio ar gyfathrebu digidol, delweddau cignoeth a dylanwadwyr cyfyngau cymdeithasol yn chwarae rhan. Gall achosion mwy difrifol o aflonyddu, gan gynnwys rhai sy'n cynnwys codi ofn, arwain at ymosodiad neu gam-drin.

Pan ofynnwyd pa fathau o aflonyddu rhywiol sy'n fwyaf cyffredin, mae arweinwyr, athrawon, aelodau staff cymorth a dysgwyr ar draws colegau gwahanol, ac mewn colegau unigol, yn aml yn rhoi ymatebion gwahanol. Er enghraifft, mae arweinwyr canol, athrawon ac aelodau staff cymorth yn lled ymwybodol o ba mor aml y mae dysgwyr yn cael delweddau cignoeth. Mae uwch arweinwyr, gan gynnwys arweinwyr diogelu, yn llai ymwybodol o faint y broblem gan fod y math hwn o ddigwyddiad yn llai tebygol o gael ei gofnodi neu ei atgyfeirio'n ffurfiol.

Mae natur hollbresennol cysylltedd digidol a sianeli cyfryngau cymdeithasol wedi arwain at gyrchu a rhannu delweddau cignoeth ymhlith pobl ifanc yn dod yn beth cyffredin. Mae dysgwyr, yn enwedig dysgwyr benywaidd, yn crybwyll eu bod yn cael delweddau cignoeth rhywiol digroeso, yn aml. Mae bron pob un ohonynt yn cael eu hanfon yn ddienw, sy'n golygu nad yw'r rhai sy'n eu derbyn yn gwybod a ydynt wedi'u targedu'n fwriadol gan rywun maent yn ei adnabod neu'n cael delweddau, ar hap yn ôl pob golwg, gan unigolion y tu allan i'r coleg neu'r gymuned leol. Caiff y delweddau hyn eu hanfon mor rhwydd a mor aml fel nad yw merched a benywod

ifanc yn eu hystyried yn anghyffredin. Caiff llawer o'r delweddau hyn eu hanfon drwy blatfformau neu apiau sy'n eu dileu ychydig eiliadau ar ôl iddynt gael eu gweld. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd profi ymddygiad amhriodol. Mae dysgwyr ac arweinwyr colegau yn crybwyll cynnydd diweddar yn nifer yr achosion o ddysgwyr mewn grwpiau yn derbyn delweddau cignoeth ar eu dyfeisiau symudol ar yr un pryd. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae'r delweddau hyn wedi'u 'gollwng' yn electronig mewn ardaloedd gan ddefnyddwyr a oedd yn gallu aros yn anhysbys.

At ei gilydd, dywed dysgwyr bod achosion o ffotograffau neu fideos amhriodol ohonynt yn cael eu tynnu'n gudd yn brin dros ben yn y coleg. Esboniant fod achosion tebyg o'r hyn sy'n cael ei alw'n 'uwchsbecian' yn llai cyffredin o lawer nag oeddent yn yr ysgol; yn rhannol oherwydd bod y dysgwyr yn fwy aeddfed ond hefyd oherwydd bod gan ddysgwyr ryddid i wisgo dillad o'u dewis. Fodd bynnag, rhoddodd dysgwyr wybod am ychydig o achosion o dynnu lluniau 'dros yr ysgwydd'. Er nad ydynt yn dangos popeth neu'n rhywiol, o reidrwydd, mewn rhai achosion cânt eu defnyddio i dargedu nodweddion neu unigolion penodol, er enghraifft trwy greu memynnau cas. Yn yr achosion gwaethaf, caiff y delweddau neu'r memynnau hyn eu rhannu yn ystod gwersi er mwyn ceisio difyrru pobl eraill drwy fychanu unigolion yn seiliedig ar eu golwg neu eu dullweddau.

Mae aelodau staff a dysgwyr yn esbonio, pan fydd dysgwyr yn dioddef delweddau amhriodol ohonynt yn cael eu rhannu, mae hyn yn aml o ganlyniad i ddelweddau hanner noeth/noeth yn cael eu tynnu a'u rhannu'n gydsyniol. Pan mae hyn yn digwydd, mae'n aml ar ôl i berthynas chwalu a gall fod ysgogiad dialgar, gyda'r dioddefwyr yn fenywod gan amlaf a'r cyflawnwyr yn wrywod. Disgrifiwyd rhannu lluniau noeth gan un dysgwr fel partneriaid/cynbartneriaid '*yn ei drin fel cyflawniad ac yn dangos eu gwerth'*. Lle caiff delweddau cignoeth eu rhannu heb gydsyniad, yr enw cyffredin ar hyn yw 'pornograffi dial'. Ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ymwybodol bod cam-drin tebyg ar sail delweddau yn anghyfreithlon dan Adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015. Ychydig iawn o golegau sy'n crybwyll bod dysgwyr yn cael eu herlyn dan y ddeddf hon, er eu bod yn ymwybodol o achosion tebyg.

Mae i ba raddau y gall colegau fesur graddau aflonyddu ysgrifenedig trwy ddulliau electronig yn amrywio. Mae gan golegau gwahanol systemau gwahanol ar waith i geisio canfod cam-drin ar-lein. Er y gall colegau osod hidlyddion i nodi geiriau ac ymadroddion amhriodol sy'n cael eu defnyddio ar ddyfeisiau'r coleg, ni allant gipio graddau llawn y mathau digidol o aflonyddu yn fanwl gywir. Yn gynyddol, mae dysgwyr yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain yn ddilys mewn lleoliadau AB ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i staff ganfod cam-drin ar-lein.

> *Mae angen i fyfyrwyr fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn aflonyddu wrth ddefnyddio ffôn symudol. Maen nhw'n defnyddio ffonau'n gyson i anfon negeseuon a gall pethau ddatblygu'n gyflym iawn.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

Mae ychydig o arweinwyr colegau yn mynegi pryder ynghylch yr hyn y maent yn ei ystyried yn gynnydd cymharol ddiweddar mewn achosion posibl o reolaeth dan orfodaeth o ddysgwyr mewn perthnasoedd. Maent yn dyfalu y gallai dysgwyr sydd wedi bod mewn perthnasoedd rhamantus yn ystod y cyfnodau clo a'r cyfnodau pan

roedd rheolau llym o ran cadw pellter cymdeithasol yn ystod y pandemig fod yn anghyfarwydd â rhyngweithio'n gymdeithasol y tu allan i'r berthynas. Maent yn amau y gallai dychwelyd i ryngweithiadau cymdeithasol ehangach â phobl ifanc eraill waethygu problemau yn ymwneud â chenfigen, gan arwain at ymdrechion gan un partner i ddylanwadu ar y llall neu ei r(h)eoli.

Mae lleiafrif o ddysgwyr benywaidd yn teimlo bod credoau, agweddau ac ymddygiad ychydig o ddysgwyr gwrywaidd yn cael eu llunio'n gynyddol gan ddylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol a/neu draciau sain rhywiaethol a misogynistaidd agored. Yn ystod egwyliau yn y coleg, maent weithiau'n clywed dysgwyr gwrywaidd yn mynegi neu'n ailadrodd sylwadau misogynistaidd neu rywiaethol y maent wedi'u clywed ar-lein ac maent o'r farn mai'r bwriad yw ennyn ymateb.

> *Mae'n anodd eistedd gyda nhw mewn gwersi ar ôl clywed beth maen nhw wedi'i ddweud*. (Dysgwr benywaidd)

> *Mae bechgyn yn gallu dweud pethau i ddangos eu hunain o flaen eu ffrindiau... Mae bechgyn sy'n gwneud y sylwadau yma yn digio os ydyn nhw'n cael eu holi amdanyn nhw ac yn dweud 'paid ag ypsetio, dim ond jôc ydy o'. Mae'n gwneud i ti deimlo fel dy fod yn gorymateb, mae'n gwneud i ti deimlo'n ofnadwy.* (Dysgwr benywaidd)

> *Dywedodd fy mab 17 oed wrthyf am sgwrs annymuol a gafodd â'i gyfoedion yn ddiweddar am agweddau derbyniol tuag at fenywod.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

> *TikTok, fideos YouTube ac ati yw'r dylanwadau mwyaf ar oedolion gwrywaidd ifanc ac mae yna rai dylanwadwyr gwenwynig dros ben sy'n boblogaidd.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

Mae llawer o ddysgwyr gwrywaidd yn credu bod achosion o aflonyddu rhywiol maent yn eu gweld neu'n eu clywed o ganlyniad i fechgyn yn ceisio denu merched neu fynegi eu hatyniad tuag atynt, ond yn mynd yn rhy bell ac yn gwneud pethau o chwith ag iaith neu weithredoedd amhriodol. Maent o'r farn bod sylwadau sy'n amharchus neu'n niweidiol yn fwriadol yn llai cyffredin, ond yn esbonio bod achosion lle gall ceisiadau i'w denu sy'n cael eu gwrthod gael eu dilyn gan iaith neu weithredoedd sbeitlyd neu gas gan fechgyn. Mae dysgwyr gwrywaidd yn ymwybodol bod dysgwyr benywaidd yn aml yn cael delweddau cignoeth rhywiol digroeso, ond maent yn aml yn credu bod y rhai sy'n eu hanfon bron bob amser yn 'ddynion dieithr' a all fod unrhyw le yn y byd.

Ymhlith dysgwyr gwrywaidd, mae iaith anweddus, herian a 'chellwair', gan gynnwys defnyddio iaith sarhaus, yn weddol gyffredin, ond nid yw'n cael ei chydnabod neu ei chrybwyll yn gyffredin gan ddioddefwyr neu dystion. Mae ychydig o ddysgwyr gwrywaidd yn esbonio y gall bechgyn ddweud neu wneud pethau i herian ei gilydd o fewn grwpiau o ffrindiau a all gael eu hystyried yn aflonyddu rhywiol neu'n ymosodiad rhywiol, ond nad oes ysgogiad rhywiol i'r gweithredoedd hyn. Mae'r math hwn o ymddygiad mewn grwpiau sydd wedi'u dominyddu gan wrywod mewn perygl o gam-ystumio amgyffrediad cyfranogwyr o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn normal neu'n dderbyniol.

Esboniodd dysgwyr LHDTC+ eu bod yn aml yn cael eu targedu gan ddysgwyr eraill oherwydd eu rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd neu eu golwg. Mae iaith homoffobig yn gyffredin ymhlith ychydig o ddysgwyr a chaiff y gair *‘gay’* ei ddefnyddio’n gyffredin fel sarhad. Ar y cyfan, mae dysgwyr â golwg amgen yn teimlo eu bod yn fwy tebygol na’u cyfoedion o gael eu targedu â sylwadau cas. Mewn ychydig iawn o achosion, disgrifiodd dysgwyr LHDTC+ achosion o aflonyddu sy’n gallu digwydd yn eu cymuned, gyda dysgwyr gwrywaidd hoyw yn targedu dysgwyr LHDTC+ sy’n fwy ar y cyrion yn amhriodol.

## Mynychder aflonyddu rhywiol

Mae arweinwyr yn cofnodi ac yn monitro ymatebion eu colegau i gwynion a materion sy’n cael eu codi gan ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud ag aflonyddu rhywiol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae arweinwyr colegau yn ei chael hi’n anodd cael darlun clir o raddau a natur aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Mae’r rhesymau am hyn yn cynnwys mynychder uchel aflonyddu rhywiol yn gyffredinol, ystod eang y mathau o aflonyddu rhywiol ac ansicrwydd o ran eu categoreiddio, yn ogystal â chyfraddau isel yr achosion y mae dysgwyr yn rhoi gwybod amdanynt. Mae colegau’n canolbwyntio ar y digwyddiadau mwyaf difrifol sy’n cynnwys ymosod, cam-drin neu fygwth; fodd bynnag, mae’r graddau y gall colegau fesur ehangder yr aflonyddu lefel is, mwy cyffredin yn amrywio. Mae aelodau staff yn cydnabod mai *‘dim ond crafu’r wyneb’* y mae nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt, mae’n debyg. O ganlyniad, gall y diwylliant ymhlith dysgwyr fod yn afloyw. Mae dysgwyr yn esbonio *‘nid yw’r staff yn deall beth sy’n digwydd bob tro a’r isgerrynt dan sylw’*. Roedd 30% o’r ymatebwyr i’n harolwg staff AB yn credu bod aflonyddu rhywiol dysgwyr coleg gan ddysgwyr coleg eraill yn weddol gyffredin neu’n gyffredin iawn. Roedd 35% o’r farn ei fod yn weddol anghyffredin neu’n anghyffredin iawn, ac nid oedd 32% yn gwybod. Nid oedd gan dros 63% o’r ymatebwyr unrhyw brofiad o ymdrin ag unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol rhwng dysgwyr.

Mae lleiafrif o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi gweld tuedd sylweddol ar i fyny yn nifer y dysgwyr sy’n rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol ers dychwelyd i’r campws yn llawn ar ôl amhariad y pandemig. Maent yn dyfalu y gallai hyn, yn rhannol, fod o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr o’r hyn sy’n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol a mwy o barodrwydd i roi gwybod am ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae aelodau staff hefyd yn amau y gallai hyn fod o ganlyniad i effaith negyddol y cyfnodau clo ar ddatblygu medrau cymdeithasol dysgwyr. Yn benodol, gallai fod o ganlyniad i ddysgwyr yn teimlo y gallant *‘ddweud a gwneud pethau’n rhwyddach’* ar ôl cyfathrebu gymaint ar-lein. At ei gilydd, mae staff mewn llawer o golegau wedi sylwi y bu ymddygiad dysgwyr yn gyffredinol waeth ers iddynt ddychwelyd i addysgu wyneb-yn-wyneb ar ôl y pandemig *‘gan iddynt golli allan ar ddatblygiad cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo, yn ôl pob tebyg’*.

> *Mae’r cyfnod clo a’r cyfyngiadau oherwydd COVID-19 dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi golygu nad yw pobl ifanc yn gwybod yn llawn sut i gymdeithasu â’i gilydd mewn ffordd briodol. Nid ydynt yn ystyriol o’r hyn maent yn ei ddweud wrth ei gilydd ac nid ydynt yn deall canlyniadau eu gweithredoedd os ydynt yn ymddwyn yn wael ar-lein.*
> (Ymateb i’r arolwg staff AB)

Dywed staff a dysgwyr bod mynychder aflonyddu rhywiol yn amrywio rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr, yn ogystal ag ar draws lleoliadau a meysydd galwedigaethol neu gwricwlaidd gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyflawnwyr yn wrywod ac mae llawer o'r targedau'n fenywod. Dywed aelodau staff a dysgwyr benywaidd bod aflonyddu rhywiol yn cael ei gyflawni'n fwyaf cyffredin gan grwpiau lle mae diwylliant siofinaidd wedi ffurfio. Caiff hyn ei weld gan amlaf mewn meysydd galwedigaethol neu gwricwlaidd, timau chwaraeon a grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u dominyddu gan wrywod.

> *Mae mwy o aflonyddu'n deillio o [ddysgwyr sydd wedi'u hymrestru ar] gyrsiau 'gwrywaidd' traddodiadol, fel adeiladu, gwaith plymwr, gosodiadau trydanol a chwaraeon – rygbi, pêl-droed ac ati.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

> *Dydw i heb weld unrhyw aflonyddu gwirioneddol yn ddiweddar gan fy mod wedi bod mewn dosbarth gwrywaidd yn bennaf, ond dwi wedi clywed myfyrwyr gwrywaidd yn siarad am fenywod mewn ffordd sy'n gyffredinol fychanol.* (Ymateb i'r arolwg staff AB)

Dywed mwyafrif yr aelodau staff sy'n goruchwylio ymddygiad dysgwyr ar draws eu colegau bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwy tebygol o roi gwybod am aflonyddu rhywiol na dysgwyr heb ADY. Mae cyhuddiadau o aflonyddu rhywiol hefyd yn fwy tebygol o gael eu gwneud yn erbyn dysgwyr gwrywaidd sydd ag un neu fwy o ADY adnabyddedig, o gymharu â'r rhai heb ADY.

Mae ychydig o arweinwyr colegau yn esbonio bod nifer gynyddol o ddysgwyr wedi crybwyll bod ganddynt anawsterau iechyd meddwl dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at achosion ychwanegol o aflonyddu rhywiol, nad oeddent wedi'u cydnabod gynt, yn cael eu datgelu fel rhan o drafodaethau neu sesiynau therapi: *'yn aml, nid yw'r dysgwyr hyn yn sylweddoli eu bod wedi dioddef aflonyddu rhywiol'*.

### Lleoliadau ac amgylchiadau

At ei gilydd, mae dysgwyr yn crybwyll, er bod aflonyddu rhywiol yn digwydd yn y coleg, mae'r achosion mwyaf difrifol yn digwydd mewn lleoliadau cymdeithasol y tu allan i'r coleg. Yn benodol, mae dysgwyr benywaidd yn cael profiad o gyffwrdd a theimlo digroeso mewn aduniadau cymdeithasol, fel mewn clybiau, tafarndai a phartïon mewn tai. Mae parodrwydd dysgwyr i roi gwybod i'w colegau am y digwyddiadau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng unigolion a cholegau gwahanol. Nid yw llawer o ddysgwyr yn teimlo ei fod yn addas rhoi gwybod i aelodau staff am ddigwyddiadau os ydynt yn digwydd y tu allan i'r coleg.

Dywed dysgwyr ac aelodau staff bod camddefnyddio sylweddau, yn enwedig alcohol, yn chwarae rôl sylweddol o ran aflonyddu ac ymosodiad rhywiol rhwng dysgwyr y tu allan o'r coleg. Mae aelodau staff yn esbonio bod alcohol hefyd yn chwarae rôl o ran yr hyn y mae dysgwyr yn ei ddehongli'n dderbyniol. Mae dysgwyr yn llai bodlon mynd ar drywydd unrhyw ddigwyddiadau y maent wedi'u dioddef os oeddent yn feddw ar y pryd, gan eu bod yn llai sicr o'r hyn a ddigwyddodd. Dywed dysgwyr gwrywaidd bod ymddygiad mwy amharchus wedi'i normaleiddio mewn lleoliadau cymdeithasol: *'mae alcohol yn ei wneud yn hollol wahanol'*, *'bydd aflonyddu rhywiol yn digwydd ym mhob parti'*.

Ar draws ychydig o ardaloedd o fewn tir ac adeiladau'r coleg, mae grwpiau o ddysgwyr gwrywaidd yn dychryn ac yn aflonyddu ar ddysgwyr eraill yn ystod egwyliau. Mewn ychydig iawn o achosion, mae aelodau staff benywaidd yn wynebu aflonyddu rhywiol hefyd ar ffurf sylwadau amhriodol gan grwpiau tebyg.

> *Bu achosion o ddysgwyr gwrywaidd yn gwneud sylwadau rhywiol amlwg am staff benywaidd o fewn clyw ac mae angen ffyrdd i fynd i'r afael â hynny. Os yw gwrywod ifanc yn teimlo ei fod yn dderbyniol siarad am athrawon gan ddefnyddio'r iaith honno, sut maen nhw'n siarad am eu cyfoedion?*
> (Ymateb i'r arolwg staff AB)

Mae dysgwyr yn esbonio y gall yr amgylchedd ffisegol, gan gynnwys siâp a natur y mannau dan do ac awyr agored, ynghyd â phresenoldeb grwpiau o ddysgwyr bygythiol, arwain at 'ardaloedd gwaharddedig' i ddysgwyr eraill. Esboniodd un dysgwr LHDTC+ er ei bod yn gobeithio defnyddio man astudio dynodedig, y trodd oddi yno oherwydd *'y byddai fel taflu cyw iâr i ffau llwynogod'*.

Mae lleoliadau eraill lle mae dysgwyr yn crybwyll eu bod wedi dioddef neu weld aflonyddu rhywiol yn cynnwys bysiau ac arosfannau bysiau cyhoeddus neu rai'r coleg. Gall sylwadau amhriodol neu gas gael ei gwneud i ddysgwyr a'u gweiddi tuag ar gerddwyr ambell waith. Nid yw llawer o ddysgwyr yn siŵr o gyfrifoldebau eu colegau dros fonitro ac ymateb i ymddygiad gwael ar gludiant yn ôl ac ymlaen i'r coleg. Dywedodd ychydig iawn o ddysgwyr wrthym eu bod yn teimlo mor anghyfforddus ar fysiau'r coleg a ger arosfannau bysiau fel eu bod wedi penderfynu gwneud eu ffordd eu hunain i'r coleg neu bod eu rhiani'n eu gollwng ac yn ei casglu. Dywedodd ychydig iawn o ddysgwyr wrthym nad yw gyrwyr bysiau'n herio ymddygiad amhriodol ac, yn yr achosion gwaethaf, gallant ymddwyn yn amhriodol eu hunain hyd yn oed.

# Rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac ymateb iddynt

## Amgyffrediad darparwyr o natur a maint y broblem

At ei gilydd, mae staff colegau'n teimlo bod nifer yr achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi cynyddu'n sylweddol ers dychwelyd i ddysgu ar y campws ar ôl pandemig diweddar COVID-19. Dywedodd lleiafrif o golegau wrthym eu bod hefyd yn gweld mwy o achosion o ddysgwyr sydd â'r hyder i herio cyflawnwyr pan fydd materion felly'n codi. Serch hynny, ychydig iawn o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion sydd wedi'u cofnodi ym mhob coleg ac mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cydnabod bod gwir faint y broblem wedi'i dangofnodi'n sylweddol.

Er bod arweinwyr yn teimlo nad yw'r mater yn cael ei gofnodi'n ddigonol, dywedodd llawer ohonynt wrthym y bu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt yn cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Maent yn awgrymu y gallai'r cynnydd hwn gael ei esbonio'n rhannol gan effaith mudiad *'Me Too'*, gan arwain at fwy o ddysgwyr yn deall beth yw ystyr aflonyddu a cham-drin erbyn hyn. Teimlai arweinwyr mai un o'r meysydd pwysig o angen yw addysg dysgwyr gwrywaidd i'w helpu i ddeall materion allweddol yn llawn, fel cydsyniad a'r ffiniau rhwng sylwadau ac ymddygiad priodol ac amhriodol. Mae ychydig o golegau'n arddangos posteri neu ddeunyddiau sy'n annog dysgwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon, er enghraifft trwy arddangos gwybodaeth ddefnyddiol yn nhoiledau'r coleg.

Caiff amgyffrediad a dealltwriaeth darparwyr o natur a maint aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion eu llesteirio gan y ffaith nad yw llawer o ddysgwyr yn rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y maent yn cael profiad ohonynt neu'n eu gweld, p'un a yw'r rhain yn digwydd y tu mewn neu'r tu allan i'r coleg. Pan roddir gwybod am yr achosion hyn, mae cipio data ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn anghyson rhwng ac o fewn colegau.

Yn nodweddiadol, caiff nifer yr achosion o aflonyddu a cham-drin rhywiol eu monitro trwy adroddiadau rheolaidd i uwch dimau rheoli a chyrff llywodraethol fel rhan o weithdrefnau diogelu'r coleg. Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr yn myfyrio ar ganfyddiadau blynyddoedd blaenorol ac yn nodi unrhyw dueddiadau y gallai fod angen iddynt ymateb iddynt. Er enghraifft, fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, mae'r colegau hyn yn ceisio nodi unrhyw fannau problemus (fel ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr neu feysydd y cwricwlwm) a meysydd sy'n peri pryder cyn diweddaru eu cynlluniau ar gyfer gwella. Mae un coleg yn gweithio ar ddadansoddiad manwl o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Mae nifer gynyddol o golegau'n buddsoddi mewn pecynnau meddalwedd diogelu penodol i gofnodi a helpu i reoli'r holl bryderon diogelu, gan gynnwys nifer yr achosion o aflonyddu a cham-drin rhywiol, gan gynnwys yr achosion sy'n digwydd y tu allan i'r coleg, lle bo hynny'n briodol.

## Rhoi gwybod am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

Ar draws cymdeithas, cyfran fach yn unig o achosion o aflonyddu rhywiol y rhoddir gwybod amdanynt i unrhyw un mewn swydd ag awdurdod (Menywod y Cenhedloedd

Unedig, 2021). Yn yr un modd, dim ond ychydig o'r dysgwyr y siaradom â nhw a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybod i'w coleg am unrhyw achosion o natur rywiol, er bod llawer o ddysgwyr benywaidd a LHDTC+ wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr neu wedi'i weld.

> *Weithiau, gallai rhoi gwybod wneud y broblem yn waeth, gallech chi gael eich labelu'n hen geg.* (Dysgwr AB)

Dywed lleiafrif o ddysgwyr gwrywaidd y byddant yn petruso cyn rhoi gwybod am unrhyw beth y byddant yn ei weld; *'nid fy lle i, nid fy musnes i'*. Maent yn esbonio eu bod yn fwy tebygol o ymyrryd na rhoi gwybod a bod materion yn *'dueddol o gael eu datrys'* ymhlith grwpiau ffrindiau. Ychydig iawn o ddioddefwyr gwrywaidd aflonyddu rhywiol sy'n rhoi gwybod amdano neu'n dweud wrth unrhyw un. Mae aelodau staff colegau yn amau bod llawer o wrywod yn anfodlon rhoi gwybod am achosion, gan ddatgan embaras a balchder gwrywaidd fel rhesymau posibl.

Ar sail ein sgyrsiau â dysgwyr ac aelodau staff, daeth yn amlwg na roddir gwybod am nifer anhysbys o achosion gan fod yr ymddygiad wedi'i normaleiddio neu nad yw'n cael ei gydnabod gan ddysgwyr yn aflonyddu; *'mae'r rhan fwyaf o ferched yn trin y peth yn ysgafn'*. Mae'r duedd hon, sy'n peri pryder, yn ymddangos yn arbennig o wir o ran aflonyddu rhywiol ar-lein, gan gynnwys anfon delweddau digroeso.

Mae llawer o ddysgwyr yn tybio nad yw rhai achosion, y gellid eu hystyried yn aflonyddu rhywiol, yn ddigon difrifol i roi gwybod amdanynt. Dywedodd ychydig iawn o ddysgwyr eu bod yn ofni'r stigma posibl yn ymwneud a rhoi gwybod ac felly eu bod yn anfodlon rhoi gwybod am achosion oni bai eu bod yn arbennig o ddifrifol. Dywedodd llawer o ddysgwyr wrthym y byddai'n well ganddynt roi gwybod i ffrind nad athro/athrawes, rhiant neu oedolion arall, gan esbonio y byddai rhoi gwybod i aelod staff yn ei gwneud yn fwy difrifol. Roedd y rhwystrau posibl eraill a grybwyllwyd gan ddysgwyr rhag rhoi gwybod am achosion yn cynnwys embaras posibl, ofn colli rheolaeth dros yr hyn sy'n digwydd nesaf a'r posibilrwydd o ddial neu ynysoli – er enghraifft trwy ddysgwyr eraill yn eu blocio neu'n eu dad-ddilyn ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Crybwyllodd dysgwyr mewn sawl un o'r grwpiau ffocws LHDTC+ a gynhaliom eu bod wedi cael profiadau negyddol o roi gwybod am aflonyddu rhywiol pan roeddent yn yr ysgol ac, o ganlyniad, eu bod wedi colli hyder o ran gofyn am ymyrraeth a chefnogaeth gan staff y coleg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o ystod o ffyrdd amgen o roi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn cynnwys rhoi gwybod ar-lein, botymau diogelu ar wefannau neu byrth mewnrwyd, codau QR ar gardiau adnabod dysgwyr ac mewn mannau eraill, trwy apiau symudol y coleg, trwy ddefnyddio rhif ffôn diogelu pwrpasol, trwy diwtoriaid neu anogwyr cyrsiau/bugeiliol, swyddogion lles myfyrwyr a thimau lles. Dywedodd ychydig o ddysgwyr ei bod yn haws codi llais yn yr ysgol gan eu bod yn fwy tebygol o adnabod y cyflawnwyr, ond bod llawer mwy o ddysgwyr nad ydynt yn eu hadnabod eisoes yn y coleg, a bod hyn yn ei gwneud yn anoddach rhoi gwybod am y manylion.

Mae uwch arweinwyr yn esbonio, pan fydd dysgwyr yn rhoi gwybod i'w colegau am aflonyddu rhywiol, eu bod yn dueddol o wneud hynny trwy fynd at aelod staff y gellir ymddiried ynddo/ynddi. Gallai hyn fod yn aelod staff sydd â rôl fugeiliol ddynodedig, fel aelod staff gwasanaethau dysgwyr neu diwtor pwnc a all fod â chyfrifoldebau

bugeiliol neu beidio. Dywed colegau bod defnydd dysgwyr o systemau cofnodi electronig, fel botymau ‘pryderon’ ar wefan/ap y coleg neu gyfeiriadau e-bost, yn brin iawn. Ymddengys bod gan ddysgwyr eu hunain ymwybyddiaeth isel o’r dewisiadau hyn. Mae i ba raddau y byddai dysgwyr yn teimlo’n barod i gysylltu â staff gwasanaethau dysgwyr i roi gwybod am unrhyw faterion yn amrywio rhwng colegau. Mewn llawer o golegau, mae dysgwyr yn gwybod lle mae staff sy’n gyfrifol am les wedi’u lleoli. Hyd yn oed os nad ydynt wedi gorfod gwneud hynny, mae dysgwyr yn teimlo’n hyderus y gallant fynd at yr aelodau staff hyn i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Fodd bynnag, mewn ychydig o golegau, mae dysgwyr yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch diffyg eglurder o ran ble i fynd i gael cymorth. Maent wedi *‘cael gwybod am deitlau swyddi ond ddim yn gwybod pwy ydyn nhw na ble i ddod o hyd iddyn nhw; gallen nhw fod yn cuddio mewn swyddfa rywle; mae angen mwy o bobl wrth law’*. Mae ychydig o ddysgwyr gwrywaidd, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael unrhyw fathau eraill o gefnogaeth eisoes, yn esbonio eu bod yn llai tebygol o fynd at staff cymorth oherwydd prinder yr aelodau staff cymorth gwrywaidd y gallant siarad â nhw.

Mae dysgwyr benywaidd yn esbonio nad ydynt yn rhoi gwybod am fwy o achosion oherwydd eu bod yn ofni na fyddai staff yn teimlo’n gyfforddus yn mynd i’r afael ag aflonyddu rhywiol ac y gallai ymddygiad y cyflawnwyr gael ei drin yn wamal neu ei esgusodi.

> *Mae staff yn agored ac yn fodlon eich helpu chi, ond dydyn nhw ddim yn deall y problemau bob tro ac yn dweud wrthym i’w hanwybyddu.*
> (Dysgwr AB)

Yn y colegau mwyaf rhagweithiol, mae mwy o ddysgwyr yn teimlo bod rhoi gwybod i aelod staff yn y coleg am achosion o aflonyddu rhywiol yn ffordd briodol o weithredu. Mae’r colegau hyn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr o’r hyn sy’n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol ac yn annog dysgwyr i ddod atynt os oes ganddynt unrhyw amheuon.

Mae’r trefniadau ar gyfer cipio, cofnodi ac adrodd ar achosion o aflonyddu rhywiol yn amrywio’n sylweddol rhwng colegau. Lle mae dysgwyr yn rhoi gwybod am achosion difrifol, caiff cofnodion eu cadw a chamau gweithredu eu monitro. Fodd bynnag, mae’r systemau ar gyfer dosbarthu ac olrhain achosion o aflonyddu a cham-drin rhywiol yn aml yn aneglur.

Caiff achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion eu nodi fel categori ar wahân mewn cofnodion data ychydig o golegau’n unig, ond mewn llawer o golegau, mae’r achosion hyn yn dueddol o gael eu cofnodi gan gategorïau mwy cyffredinol, fel bwlio ac aflonyddu. Yn aml, caiff achosion eu dosbarthu’n gategorïau cymharol eang ac mae natur rywiol y materion yn cael ei cholli. Mae’r gwahaniaethau a’r anghysondebau hyn o ran dulliau yn gwaethygu’r mater o dangofnodi achosion o aflonyddu rhywiol ac yn arwain at beidio â gallu nodi, monitro ac adrodd ar dueddiadau yn nifer yr achosion o aflonyddu rhywiol ac ymddygiad camdriniol. O ganlyniad, nid yw colegau’n glir ynghylch graddau aflonyddu, bwlio, bygythiadau neu gam-drin o natur rywiol. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i olrhain tueddiadau mewn aflonyddu rhywiol a mesur effeithiolrwydd eu gwaith o ran gwella’r diwylliant ymhlith dysgwyr. Caiff cymhlethdod rhai achosion o fwlio ac aflonyddu sy’n cynnwys

materion niferus ei ddatgan fel ffactor sy’n cyfrannu at ddryswch ac anghysondeb o ran casglu ac adrodd ar ddata.

Mewn llawer o golegau, rhoddir gwybod i staff lles a gwasanaethau dysgwyr am achosion o aflonyddu rhywiol yn bennaf, yn hytrach na thrwy diwtoriaid personol neu athrawon pwnc. Dysgwyr sy’n rhoi gwybod am y rhan fwyaf o achosion, er bod rhieni’n rhoi gwybod am ychydig o achosion trwy staff diogelu. Mewn ychydig iawn o achosion, rhoddwyd gwybod i golegau gan ddysgwyr a oedd yn poeni am les ffrind. Gallai ffactorau diwylliannol ddylanwadu ar barodrwydd i roi gwybod am achosion hefyd, oherwydd hunaniaeth ddiwylliannol a ffactorau crefyddol. Ar wahân i fyny, dywedodd staff wrthym fod ychydig o ddysgwyr wedi cael profiad o aflonyddu neu gam-drin rhywiol neu wedi’u gweld yn y cartref, ac y gallai hyn arwain at drothwy goddefgarwch uchel o ran yr ymddygiad y maent yn ei ystyried yn dderbyniol.

Dywedodd dysgwyr a staff wrthym yn aml fod llawer o ferched yn benodol wedi’u dadsensiteiddio’n gynyddol i aflonyddu rhywiol oherwydd ei fynychder eang a’r ffaith bod ymddygiad tebyg wedi dod yn fwyfwy normal ar draws cymdeithas. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr y byddant yn teimlo’n gyfforddus yn mynd at aelod staff i rannu eu pryderon. Fodd bynnag, ychydig ohonynt yn unig a ddywedodd y byddant yn dewis mynd ar drywydd yr achosion mwyaf cyffredin sy’n cael eu profi, gan fod y rhain wedi’u normaleiddio gymaint ac yn digwydd yn rheolaidd.

Er y caiff dysgwyr eu hannog i ddod ger bron a rhoi gwybod am achosion cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddigwydd, yn gyffredinol, mae achosion tebyg hefyd yn dueddol o ddod i’r amlwg pan fydd y dysgwyr yn manteisio ar gymorth am reswm arall neu yn ystod gwersi. Er enghraifft, gallant siarad am achosion blaenorol pan fyddant yn mynychu sesiynau cwnsela neu oherwydd sbardunau fel cynnwys y cwricwlwm mewn pynciau fel seicoleg, cymdeithaseg neu ddosbarthiadau iechyd a gofal.

Caiff y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i staff cymorth arbenigol eu gwneud trwy diwtoriaid personol neu anogwyr dysgu y mae dysgwyr wedi siarad â nhw. Mae’r staff hyn yn dueddol o wneud yr atgyfeiriadau gan ddefnyddio’r botwm diogelu ar y porth mewnrwyd i staff. Dywedodd ychydig o aelodau staff wrthym y gallai sylwadau amhriodol lefel isel fod wedi’u herio ar y pryd yn y gorffennol ond nad oeddent yn cael eu cofnodi’n aml. Erbyn hyn, mae dysgwyr yn ceisio newid y diwylliant hwn trwy annog staff i gofnodi’r achosion hyn, lle bo hynny’n bosibl.

Fel arfer, mae colegau’n monitro gweithgarwch ar-lein sy’n digwydd ar ddyfeisiau neu rwydweithiau’r coleg. Er enghraifft, gallai systemau ar-lein dynnu sylw at weithgareddau sy’n cynnwys ceisio mynd at wefannau, cynnwys, gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol neu chwiliadau rhyngrwyd amhriodol. Mae’r rhan fwyaf o golegau’n egluro hyn i ddysgwyr ar ddechrau eu cwrs trwy godau ymddygiad a pholisïau yn ymwneud â’r defnydd derbyniol o dechnoleg. Er y rhagofalon hyn, mae dysgwyr yn aml yn osgoi’r craffu hwn trwy ddefnyddio eu dyfeisiau a’u contractau data symudol personol eu hunain.

## Argaeledd ac effeithiolrwydd cymorth i ddioddefwyr

Mae colegau’n sicrhau bod ystod eang o gymorth ar gael i ddysgwyr, yn enwedig y gallu i fanteisio ar staff cymorth bugeiliol a thimau lles dynodedig. Mae’r rhan fwyaf o golegau’n cyflogi eu cwnsleriaid eu hunain ac mae ychydig o golegau’n defnyddio

sefydliadau allanol i gynnig cymorth ac adnoddau ar-lein y gall dysgwyr fanteisio arnynt ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos. Gall dysgwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster ar-lein sgwrsio â gweithwyr proffesiynol neu bobl ifanc eraill a chaiff y sgyrsiau eu monitro gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, yn aml, mae ymwybyddiaeth gyffredinol o wasanaethau cymorth lles yn gymharol isel ymhlith dysgwyr gwrywaidd ac mae ychydig o ddysgwyr yn teimlo nad oes digon o bwyslais ar gymorth i ddioddefwyr gwrywaidd aflonyddu rhywiol, yn gyffredinol.

Dywedodd llawer o ddysgwyr wrthym gymaint y maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld ag ardaloedd gwasanaethau dysgwyr a lles yn coleg i siarad am unrhyw anawsterau neu bryderon sydd ganddynt. Mae llawer o golegau wedi lleoli a datblygu'r cyfleusterau hyn yn ofalus ac mewn modd sensitif er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch a chroesawgar â phosibl.

Roedd llawer o ddysgwyr a oedd wedi manteisio ar gymorth gan staff gwasanaethau dysgwyr neu les yn canmol pa mor hawdd mynd atynt, cydymdeimladol a chynorthwyol y mae'r staff o ran eu helpu i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion. Yn ogystal â chynnig cymorth yn uniongyrchol i ddysgwyr, mae staff hefyd yn helpu i atgyfeirio dysgwyr i amrywiaeth o wasanaethau cymorth mewnol ac allanol. Gallai hyn gynnwys cwnsleriaid y coleg, meddygon teulu neu asiantaethau eraill sy'n gallu cynnig cymorth mwy uniongyrchol i ddysgwyr. Teimlai ychydig o ddysgwyr bod angen mwy o hyfforddiant ar rai aelodau staff, gan eu bod yn dweud nad ydynt yn gwybod sut i ymateb, gan ddweud y peth anghywir yn aml neu ddal ati i'w hatgyfeirio i aelodau staff eraill am gymorth heb unrhyw gamau dilynol i wirio a aethpwyd i'r afael â'r broblem. Fodd bynnag, mae argaeledd gwasanaethau fel nyrsys iechyd rhywiol, yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar bolisïau mewn ardaloedd lleol, ac mae'n aml yn anodd manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc heb amseroedd aros hirfaith. Gall manteisio ar gymorth iechyd meddwl gael ei gymhlethu ymhellach wrth i ddysgwyr droi'n 18 oed, gan eu bod yn symud oddi wrth wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) arbenigol i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion (AMHS).

**Cymorth i ddysgwyr mewn cydberthnasoedd gorfodaethol**

Mae swyddogion lles myfyrwyr mewn un coleg yn cynnig cymorth un-i-un pwysig i ddysgwyr sy'n profi problemau â chydberthnasoedd gorfodaethol, er enghraifft trwy sicrhau bod cynlluniau diogelwch ar waith a chydweithio â dysgwyr i'w helpu i bennu ffiniau priodol.

Fel arfer, caiff dysgwyr sy'n rhoi gwybod am bryderon yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol eu gwahodd i gyfarfod â staff hyfforddedig neu arweinwyr lles i siarad am unrhyw achosion honedig a helpu i nodi'r anghenion cymorth a'r camau gweithredu dilynol y gall fod eu hangen, yn enwedig os yw'r cyflawnydd honedig yn ddysgwr yn y coleg, hefyd. Pan fydd mater felly, bydd staff arbenigol fel arfer yn cyfarfod â'r dysgwyr a'r tiwtoriaid hefyd i roi camau gweithredu ar waith i gefnogi dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cydnabod ac yn pwysleisio pwysigrwydd bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn hyderus bod y coleg yn cyflawni ei gamau gweithredu. Dywedodd ychydig iawn o ddysgwyr a oedd wedi cael profiad o achosion

felly ac wedi rhoi gwybod i staff y coleg amdanynt wrthym fod staff y coleg wedi cyfarfod â nhw ar sawl achlysur ar ôl i'r broblem wreiddiol gael ei chodi a dywedont eu bod yn teimlo bod y coleg wedi ymdrin â'r materion yn briodol.

**Gwasanaethau cymorth ar y safle**

Mae dysgwyr mewn un coleg yn elwa ar allu manteisio ar weithwyr ieuenctid ac anogwyr bugeiliol ar y campws sy'n cynnig sesiynau cymorth un-i-un. Mae cwnsleriaid y coleg ar gael ar y safle, hefyd. Mae'r coleg wedi sefydlu hybiau lles buddiol ar bob campws ac mae'r rhain yn cynnig sesiynau cymorth galw heibio i ddysgwyr.

Fel arfer, mae colegau'n cynnig cymorth i ddysgwyr, hyd yn oed pan nad ydynt yn dymuno mynd â'r digwyddiad ymhellach. Yn gyffredinol, mae colegau'n rhoi gwybod i'r heddlu am achosion honedig o gam-drin rhywiol ac yn cynnig cymorth perthnasol i ddioddefwyr. Fodd bynnag, yn aml, nid yw dysgwyr yn dymuno mynd â'r mater ymhellach.

## Cwmpas cyfrifoldeb colegau

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr a staff yn teimlo bod eu coleg yn sicrhau bod disgwyliadau o ran ymddygiad dysgwyr yn glir ac yn datgan y byddant yn herio ymddygiad amhriodol gan ddysgwyr. Fodd bynnag, mae dysgwyr a staff yn llai eglur ynghylch cwmpas cyfrifoldeb ac awdurdod y coleg o ran mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n digwydd y tu allan i'r coleg.

**Coleg yn cofnodi digwyddiadau y tu allan i'r coleg**

Pan fydd dysgwyr, rhieni neu'r heddlu yn rhoi gwybod i'r coleg bod digwyddiad sy'n cynnwys aflonyddu rhywiol wedi digwydd y tu allan i'r coleg, caiff hyn ei gofnodi ar system ddiogelu'r coleg. Mae staff perthnasol yn gwahodd y dysgwr i ddod i gyfarfod cynllunio i nodi cymorth, yn ôl yr angen, ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen, yn enwedig os yw'r cyflawnwr honedig yn ddysgwr yn y coleg hefyd.

Er i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ddweud wrthym fod staff yn herio ymddygiad amhriodol yn ystod gwersi, yn gyffredinol, mae lleiafrif o ddysgwyr yn teimlo y dylai colegau fonitro gweithgarwch dysgwyr yn fwy gofalus o gwmpas y coleg, y tu allan i wersi, i helpu atal neu herio ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amhriodol. Er enghraifft, teimlant nad yw materion yn ystod amseroedd egwyl a chinio naill ai'n cael eu monitro neu eu bod yn aml yn cael eu hanwybyddu gan staff.

**Tîm ymddygiad yn helpu i fynd i'r afael â materion o gwmpas y campws**

Mae un coleg wedi sefydlu tîm ymddygiad sydd â'r dasg o fynd i'r afael â digwyddiadau lefel isel, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, o gwmpas y coleg. Gan weithredu fel rhan o'r tîm diogelu a lles, mae swyddog ymddygiad yn cylchwylio ardaloedd cymunedol ac yn rhoi 'hysbysiadau gwella' i ddysgwyr os byddant yn camymddwyn, os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol. Maent hefyd yn rhoi gwybod

i rieni dysgwyr am yr hysbysiad gwella. Teimlai staff fod cynnwys rhieni fel hyn yn bwysig ac yn effeithiol. Gall y camau gweithredu cychwynnol hyn gael eu huwchgyfeirio i gam 2 neu gam 3, yn ôl yr angen, a fydd yn cynnwys staff arbenigol neu uwch aelodau staff eraill. Mae'r swyddog ymddygiad yn ymweld â sesiynau tiwtorial hefyd i bennu rheolau grŵp a chytundebau dysgwyr, ar gais gan staff y gyfadran, pan nodir bod grwpiau penodol yn peri pryder.

Yn gyffredinol, mae colegau'n ymateb yn briodol i achosion mwy difrifol o aflonyddu a cham-drin rhywiol, gan gynnwys dilyn gweithdrefnau a phrotocolau diogelu perthnasol, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mae staff colegau'n ei chael hi'n arbennig o anodd ymdrin ag achosion lle mae'r cyflawnwyr yn destun ymchwiliad gan yr heddlu am aflonyddu a cham-drin rhywiol sy'n cynnwys dysgwr arall, gan y gallai arweiniad ar faterion fel rhannu gwybodaeth fod yn eglur. Mynegodd ychydig o aelodau staff rwystredigaeth o ran peidio â chael eu diweddaru ar gamau gweithredu yn deillio o achosion y rhoddir gwybod amdanynt.

Mae ychydig o golegau'n defnyddio offeryn asesu risg cytûn ar gyfer achosion tebyg er mwyn datblygu cynlluniau diogelwch i helpu i gadw dioddefwyr a'r cyflawnwyr honedig oddi wrth ei gilydd, er enghraifft trwy addasu amserlenni dysgwyr. Mae'r offeryn hwn yn cynnwys ac yn ystyried gwybodaeth am fanylion cenfdir, bygythiad, nodweddion gwaethygol, nodweddion lliniarol, difrifoldeb y risg, dulliau rheoli, y partïon sy'n gyfrifol a rhifau ffôn cyswllt aelodau staff allweddol. Mae staff yn gweld y dull asesu risg hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ymdrin ag achosion honedig o aflonyddu a cham-drin rhywiol. Mae'r colegau hefyd yn rhoi cynlluniau diogelwch ar waith sy'n cynnwys rhestr o ddisgwyliadau i bob parti eu llofnodi a chytuno â nhw.

### Trefniadau, polisïau a systemau disgyblu

Yn gyffredinol, mae gan golegau bolisïau a gweithdrefnau disgyblu cynhwysfawr a phriodol ac mae'r rhain ar gael yn eang neu'n hygyrch drwy wefannau colegau, pyrth dysgwyr neu lawlyfrau dysgwyr. Mae polisïau a gweithdrefnau disgyblu yn amlinellu'n glir wahanol gamau'r broses ddisgyblu, gan gynnwys gwahaniaethau priodol rhwng camau anffurfiol a ffurfiol, lefelau gwahanol o gamymddwyn ac ystod y cosbau disgyblu y gellir eu defnyddio. Nid yw staff a dysgwyr yn glir bob tro ynghylch sut byddai'r coleg yn ymchwilio i honiadau penodol o aflonyddu a cham-drin rhywiol a pha fathau o gamau disgyblu fyddai'n debygol o gael eu defnyddio.

Awgrymodd ychydig o ddysgwyr y byddai'n ddefnyddiol pe byddai enghreifftiau penodol o sefyllfaoedd gwirioneddol/posibl a'r camau disgyblu cysylltiedig posibl yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau neu ddefnyddiau ategol sy'n cael eu defnyddio yn ystod sesiynau ymsefydlu, er mwyn enghreifftio a phwysleisio pa mor ddifrifol y bydd y coleg yn trin honiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae ychydig o ddysgwyr hefyd yn teimlo y gall prosesau'r coleg ganolbwyntio gormod ar gyflawnwyr ambell waith ac na roddir digon o ystyriaeth i'r effaith negyddol ar ddioddefwyr. Teimlai dysgwyr eraill bod rhoi'r dasg o ymdrin ag achosion disgyblu i reolwyr cwricwlwm weithiau'n arwain at amrywioldeb yn y modd yr eir i'r afael ag achosion tebyg a'r modd y cânt eu datrys.

> *Mae staff yn agored ac yn fodlon eich helpu chi, ond dydyn nhw ddim bob amser yn deall y problemau ac mae rhai ohonyn nhw'n dweud wrthym i'w hanwybyddu.* (Dysgwr AB)

> *Mae systemau'r coleg yn dda am gadw rhai pobl ar wahân os bu digwyddiadau drwg – ond weithiau, maen nhw'n cael eu rhoi mewn ystafell i gymodi. Dydy hyn ddim yn ddefnyddiol.* (Dysgwr AB)

Dywedodd ychydig o staff bugeiliol wrthym eu bod wedi'u hyfforddi mewn dulliau cyfiawnder adferol a'u bod yn gweld y rhain yn ddefnyddiol wrth ymdrin ag achosion honedig o aflonyddu a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio ar addysgu yn hytrach na chosbi troseddwyr. Yn ddiweddar, mae arweinwyr mewn un coleg wedi sefydlu cyfres o weithdrefnau rheoli cydberthnasoedd i helpu i fynd i'r afael â materion fel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys dull haenog sy'n berthynol i ddifrifoldeb y digwyddiad, gan gynnig cymorth i'r dioddefwr a'r cyflawnwr. Hefyd, dywedodd ychydig o golegau wrthym, mewn ychydig iawn o achosion, y canfuwyd bod dysgwyr wedi gwneud honiadau ffug o aflonyddu rhywiol gan ddysgwyr eraill.

Gall cynnal parhad dysgu i bob parti sy'n gysylltiedig â honiadau o aflonyddu rhywiol yn ystod y cyfnodau ymchwilio a chamau disgyblu mewnol neu ymchwiliadau allanol gan yr heddlu fod yn arbennig o heriol mewn achosion o aflonyddu a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Er enghraifft, mewn un coleg lle y cyhuddwyd dysgwr ond ni chafodd ei erlyn yn dilyn honiadau o gam-drin rhywiol difrifol, disgrifiodd dysgwr sut roedd rhaid iddynt reoli a chadw'r dysgwyr ar wahân ar y safle. Roedd hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg ar gyfer y ddau ddysgwr, gan gynnig cymorth priodol i'r ddau barti a rhoi trefniadau clir ar waith i geisio sicrhau bod dysgwyr yn aros mewn ardaloedd gwahanol o'r coleg y tu allan i amseroedd gwersi. Esboniodd arweinwyr eraill fod cadw dysgwyr ar wahân yn ôl yr angen yn arbennig o anodd pan mae dysgwyr yn mynychu'r un cwrs ac nad oes grwpiau amgen ar gael.

### Amgyffrediad dysgwyr o rolau, cyfrifoldebau ac effeithiolrwydd staff

Dywedodd dysgwyr wrthym fod y rhan fwyaf o staff colegau'n herio sylwadau neu ymddygiad amhriodol os byddant yn eu gweld. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o ddysgwyr wrthym nad yw rhai aelodau staff yn herio ymddygiad amhriodol, yn enwedig o gwmpas ardaloedd cymunedol y coleg.

Mae dysgwyr yn siarad yn eithaf agored am sut maent yn teimlo o gwmpas campysau'r coleg. Mae dysgwyr benywaidd a LHDTC+ yn arbennig o huawdl ynghylch pryd a ble y ceir problemau o gwmpas safleoedd colegau. Yn aml, mae dysgwyr yn teimlo bod angen i staff fod yn fwy gwyliadwrus a chynnig goruchwyliaeth fwy digonol y tu allan i amseroedd gwersi er mwyn helpu i atal neu fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod angen hyfforddiant gwell ar staff i'w harfogi â'r wybodaeth a'r medrau priodol i addysgu dysgwyr am y mater hwn a'u galluogi i ymateb yn briodol pan fydd dysgwyr yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau.

Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr, pan roddir gwybod am ddigwyddiadau, bod y coleg yn ymdrin â nhw'n briodol ac yn foddhaol. Yn aml, dywed dysgwyr sy'n rhoi gwybod

am achosion o aflonyddu rhywiol nad ydynt eisiau unrhyw gamau gweithredu dilynol, a dywed llawer ohonynt eu bod yn arbennig o gyndyn i gynnwys asiantaethau allanol. Mae llawer o fyfyrwyr hefyd yn cydnabod y pwysau sydd ar staff o ran cynnig cymorth.

Er nad yw rhai dysgwyr eisiau cymryd unrhyw gamau pellach o bosibl, dywed y dysgwyr hyn yn aml eu bod eisiau rhywun i siarad â nhw yn unig. Roeddent yn aml yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a roddwyd gan anogwyr/tiwtoriaid bugeiliol a thimau lles/diogelu pan nodwyd problem. Dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr benywaidd a LHDTC+ y siaradom â nhw eu bod yn hyderus y bydd tiwtoriaid eu cyrsiau'n ymdrin yn briodol ag unrhyw fater a godir a chrybwyll bod y berthynas gadarnhaol â thiwtoriaid yn arbennig o fuddiol. Dywedodd ychydig o ddysgwyr a oedd wedi cael profiadau negyddol yn yr ysgol yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol y byddant yn fwy cyfforddus yn codi materion yn y coleg, gan y dywedant ei fod yn amgylchedd llawer mwy cynhwysol.

### Arweiniad cenedlaethol

Teimlai arweinwyr colegau ac ymarferwyr diogelu bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn glir ac yn ddefnyddiol, ynghyd ag ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer dyfeisiau symudol. Mae arweinwyr colegau hefyd o'r farn bod arweiniad Llywodraeth Cymru ar ymdrin â rhannu delweddau noeth a hanner noeth yn ddefnyddiol. Lansiwyd adnoddau hyfforddiant diogelu cenedlaethol ym mis Tachwedd 2022 ac mae uwch arweinwyr yn croesawu cael safonau newydd yn ymwneud â hyfforddiant i staff, gan fod rhai'n teimlo y bu hyn yn wendid yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Dywed staff colegau bod pecyn cymorth ac adnoddau Hwb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys canllawiau addysgu, ar gyfer uwchsgilio staff addysg yng Nghymru yn dda, ond nad yw ymwybyddiaeth o Hwb yr un mor eang mewn colegau AB ag ydyw mewn ysgolion, hyd yn hyn. Teimlai llawer o staff colegau y byddai arweiniad mwy pwrpasol i golegau AB yn fuddiol ac yn cael ei groesawu'n fawr, ynghyd â phecynnau hyfforddiant wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer staff AB.

### Gweithio ar y cyd a phartneriaethau

Fel arfer, mae colegau'n cydweithio'n agos â byrddau diogelu lleol a thimau diogelu plant ac oedolion mewn awdurdodau lleol. Maent hefyd yn cynnwys yr heddlu ac asiantaethau allanol eraill yn yr ychydig iawn o achosion difrifol, er enghraifft trwy baneli diogelu. Mae enghreifftiau eraill o asiantaethau allanol perthnasol yn cynnwys clinigau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, meddygon teulu, yr heddlu, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol a Cymorth i Ferched. Mae sawl coleg hefyd yn cydweithio â Phrifysgol Caerdydd ar brosiect ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar aflonyddu rhwng cyfoedion. Ei nod yw datblygu cyfres o adnoddau, gwella dulliau cofnodi a chyflawni dealltwriaeth lawnach o fynychder aflonyddu rhywiol ar draws y sector addysg bellach.

Lle mae cydweithio a gweithio ar y cyd yn llai effeithiol, nid yw colegau wedi'u cynnwys ymhlith aelodau grwpiau allweddol, fel byrddau diogelu lleol. Mae hyn yn golygu bod rhannu gwybodaeth a chydlynu camau gweithredu yn arbennig o anodd ac yn rhwystredig i arweinwyr a staff colegau.

# Dylanwadu ar y diwylliant

## Addysg a datblygiad personol

Mae pob coleg yn sicrhau bod arweiniad ar ymddygiad ac ymarweddiad dysgwyr yn cael ei gynnwys fel rhan o weithgareddau ymsefydlu gwerthfawr yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl i ddysgwyr ymrestru yn y coleg. Yn aml, mae'r gweithgareddau hyn wedi'u fframio'n ddefnyddiol yng nghyd-destun eang 'parch', gan ddarparu sylfaen gadarn i danategu'r diwylliant y mae'r coleg yn ceisio ei sefydlu. Mae'r elfen o ymddygiad ac ymarweddiad yn dueddol o fod ar ffurf cyflwyniadau lefel uchel, byr gan aelodau staff ac nid ydynt yn cyfeirio'n uniongyrchol at faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol. Mae mwyafrif y colegau'n gwahodd asiantaethau allanol i ddigwyddiadau, fel ffeiriau glasfyfyrwyr, lle maent yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol ac yn darparu adnoddau fel capiau rhag sbeicio diodydd, condomau a larymau personol. Mae ychydig o golegau hefyd yn dechrau gosod yr olygfa o ran ymddygiad, gwerthoedd a pharch gyda darpar ddysgwyr fel rhan o ddiwrnodau agored a gweithgareddau pontio ehangach.

Er nad yw addysg bersonol a chymdeithasol yn ddyletswydd statudol i ddarparwyr AB, mae colegau'n helpu i feithrin datblygiad personol dysgwyr ochr yn ochr â'u dysgu academaidd a galwedigaethol. Fel arfer, mae rhaglenni tiwtorial a bugeiliol colegau'n mynd i'r afael ag ystod eang o bynciau gwerthfawr yn ddefnyddiol, gan gynnwys diogelwch personol a diogelwch ar-lein; cynhesu byd-eang a sero net; defnyddio a chamddefnyddio sylweddau; bwlio; llinellau cyffuriau; hiliaeth; cydraddoldeb ac amrywiaeth; Prevent; byw'n iach, gan gynnwys diet ac ymarfer corff; Cymraeg a diwylliant Cymreig; iechyd meddwl a gwydnwch; medrau astudio ac adolygu. Mae gan leiafrif o golegau sesiynau sefydledig hefyd wedi'u neilltuo i gydberthnasoedd iach, sy'n mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a chydsyniad fel rhan o'u rhaglenni bugeiliol.

Mae lleiafrif o golegau'n cynnal gweithdai ychwanegol wedi'u targedu, sy'n mynd i'r afael â materion gwahanol fel cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a thrais domestig, yn ogystal â chydberthnasoedd iach. Gall y gweithdai hyn fod ar agor i unrhyw ddysgwr sydd eisiau mynychu ond, yn aml, maent wedi'u bwriadu ar gyfer carfanau y tybir eu bod yn fregus neu sydd â risg uwch, fel dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu grwpiau sydd wedi'u dominyddu gan wrywod. Fodd bynnag, at ei gilydd, dim ond ychydig o ddysgwyr AB sy'n cymryd rhan mewn gweithdai felly.

> *Mae angen ymagwedd fwy cyson ar draws colegau i'r holl fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithdai/sesiynau sy'n ymwneud â hyn.*
> (Ymatebydd yr arolwg staff)

Mae sefydliadau allanol, fel Cymorth i Ferched, Cymorth i Ddioddefwyr neu YMCA yn aml yn cynnal y gweithdai hyn neu'n cymryd rhan ynddynt. Caiff timau allgymorth eraill yn y trydydd sector, staff arbenigol awdurdodau lleol, yr heddlu neu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig eu defnyddio, hefyd. Dim ond ychydig o'r ymatebwyr i'n

harolwg staff AB (15%) oedd yn ymwybodol y daethpwyd ag asiantaethau allanol i mewn i'r colegau i weithio â dysgwyr unigol neu grwpiau.

Mae gan bob un o'r colegau raglenni bugeiliol y mae'r rhan fwyaf o'u dysgwyr 16 i 18 oed amser llawn yn ymgymryd â nhw yn ystod pob blwyddyn academaidd. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn cymryd rhan yn y grwpiau hyn fel rhan o sesiynau tiwtorial wythnosol neu bob pythefnos dan arweiniad staff. Mae'r ffordd y caiff cyfrifoldebau bugeiliol/tiwtorial eu dyrannu i aelodau staff yn amrywio rhwng colegau. Mae rhai ohonynt yn cynnal dull mwy traddodiadol, lle mae gan athrawon gyfrifoldeb bugeiliol dros un neu ddau grŵp o ddysgwyr, ochr yn ochr â'u rôl addysgu pwnc. Mae rhai eraill wedi rhoi timau o staff bugeiliol arbenigol ar waith i ymgymryd â'r agwedd hon, gan ryddhau athrawon i addysgu gwersi pwnc neu sesiynau galwedigaethol ychwanegol. Mae ychydig o golegau'n defnyddio'r ddau ddull gan ddibynnu ar y campws neu'r math o ddarpariaeth. Er enghraifft, mae ganddynt staff bugeiliol arbenigol ar gyfer dysgwyr Safon Uwch, ond maent yn gofyn i athrawon mewn meysydd galwedigaethol ymgymryd â'r dyletswyddau bugeiliol ar gyfer dysgwyr galwedigaethol. Mae llawer o golegau'n defnyddio adnoddau dysgu digidol i ychwanegu at eu rhaglenni bugeiliol. Mae rhai colegau'n cydweithio â'i gilydd i ddatblygu a rhannu adnoddau felly. Mae ychydig o golegau'n dibynnu'n rhy drwm ar ddysgwyr yn ymgymryd â phecynnau hunanastudio ar gyfer yr agwedd hon ar eu datblygiad.

> *Dylai'r rhaglen diwtorial fod yn gryfach yn yr elfennau hyn, gydag arweiniad a chymorth i ddarlithwyr gynnal y sesiynau hyn.* (Ymatebydd yr arolwg staff)

Mae rhai colegau'n dylunio ac yn cynllunio eu sesiynau bugeiliol yn ganolog, gydag aelodau staff unigol yn gyfrifol am fireinio, personoli a chyflwyno'r sesiynau. Mewn colegau eraill, mae timau meysydd cwricwlwm neu alwedigaethol ar wahân neu aelodau staff unigol yn cael eu gadael i ddylunio a chynllunio eu sesiynau bugeiliol ar wahân. Lle nad yw darpariaeth yn cael ei chynllunio'n ganolog, mae'n anodd i golegau sicrhau cynnwys ac ansawdd y sesiynau hyn. At ei gilydd, mae colegau'n rhy anghyson o ran sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ac yn elwa ar weithgareddau dysgu cysylltiedig. Er enghraifft, gallai tiwtoriaid personol fanteisio ar y deunyddiau, ond nid yw pob un ohonynt yn dewis eu defnyddio neu drafod aflonyddu rhywiol a materion cysylltiedig â'u dysgwyr.

> *Mae yna asiantaethau allanol y gallwn ni eu bwcio, ond mae'r cyfrifoldeb ar diwtoriaid personol, ac rwy'n credu y dylai hyn fod yn fenter ar draws y coleg cyfan.* (Ymatebydd yr arolwg staff)

> *Gwnewch yn siŵr fod yna ddeunydd cynhwysfawr ar gael i ddarlithwyr a hyfforddiant er mwyn iddyn nhw allu ei gyflwyno'n hyderus.* (Ymatebydd yr arolwg staff)

At ei gilydd, mae darpariaeth ar gyfer dysgu am sut i sefydlu a chynnal ymddygiad ac agweddau iach o ran atyniad a chydberthnasoedd yn anghyson, ac yn aml yn wan. Nid oes digon o ddysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp, dan arweiniad athrawon, tiwtoriaid neu arbenigwyr, am y materion pwysig hyn. Dywedodd

gormod o ddysgwyr wrthym, gan gynnwys y rhai a oedd wedi ymrestru ers blwyddyn neu fwy, nad oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw sesiynau neu drafodaethau yn eu coleg a oedd yn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol neu gydberthnasoedd iach. Teimlai mwyafrif y dysgwyr y byddai cymryd rhan mewn sesiynau a thrafodaethau ar sut i sefydlu a chynnal cydberthnasoedd iach yn fuddiol iddyn nhw neu eu cyfoedion.

Pan fydd dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau ar gydberthnasoedd iach, mae'r rhain yn mynd i'r afael â materion gwerthfawr. Nodweddion iach cydberthnasoedd, ymddygiad 'fflag goch' posibl a'r rhesymau pam mae rhai dysgwyr yn gyndyn i roi gwybod am ymddygiad a digwyddiadau amhriodol yw rhai o'r pynciau yr eir i'r afael â nhw'n gyffredin.

> *Dylai pob myfyriwr gael gwersi ar gydberthnasoedd iach.* (Ymatebydd yr arolwg staff)


Fel rhan o'n harolwg, holom aelodau staff AB ba mor hyderus y byddant yn teimlo pe byddai gofyn iddynt arwain sesiwn ar 'aflonyddu rhywiol', 'cydsyniad' neu 'gydberthnasoedd iach', wedi'i hanelu at grŵp o ddysgwyr 16 i 18 oed. Dywedodd bron i hanner (48%) yr ymatebwyr a oedd yn fodlon rhoi sgôr i'w lefel hyder eu bod 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn hyderus iawn'. Roedd 35% ohonynt 'rhywfaint yn hyderus' ac 18% ohonynt yn 'hyderus iawn' neu'n 'hyderus dros ben'.

> *Mae'n rhaid i diwtoriaid gynnal y sesiwn diwtorial ac rwy'n gwybod am aelodau staff sy'n teimlo'n anghyfforddus iawn yn addysgu'r pwnc hwn; rwyf i'n un ohonyn nhw fy hun. Gallai hyn fod oherwydd na fu unrhyw hyfforddiant ffurfiol erioed.* (Ymatebydd yr arolwg staff)

Mae'r diffyg hyder ymhlith aelodau staff yn cael ei adlewyrchu hefyd yn eu hymatebion i gwestiwn yr arolwg am bwy maent yn credu sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r sesiynau hyn i ddysgwyr. Dewisodd dros ddau o bob pump (41%) 'asiantaethau allanol arbenigol'. Dewisodd cyfran leiaf yr ymatebwyr (7%) 'darlithwyr neu athrawon'. Dewisodd bron i draean (29%) 'aelodau staff sydd â rolau tiwtor personol neu fugeiliol', a dewisodd 14% 'gwasanaethau dysgwyr/myfyrwyr neu staff cymorth eraill' fel y rhai sydd yn y sefyllfa orau.


Roedd ymatebion i'r arolwg aelodau staff am yr hyn a wnaed i sicrhau bod dysgwyr yn deall aflonyddu rhywiol yn dangos nad oedd dros draean (38%) ohonynt yn siŵr. Nododd traean ohonynt drefniadau i ddysgwyr wylio cyflwyniadau mewn dosbarthiadau, darlithoedd neu ar-lein. Nododd bron yr un nifer (31%) fod eu coleg wedi rhannu hysbysiadau, dolenni, posteri neu daflenni perthnasol. Dim ond 17% o'r ymatebwyr a grybwyllodd fod eu coleg wedi trefnu i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp neu un-i-un am gydberthnasoedd, cydsyniad neu aflonyddu.

**Ffigur 1: Ymatebion yr arolwg i aelodau staff AB i'r cwestiwn - Beth mae eich coleg chi wedi'i wneud i sicrhau bod dysgwyr yn deall aflonyddu rhywiol, er enghraifft fel rhan o ddysgu am gydberthnasoedd iach a chydsyniad rhywiol? Ticiwch bob blwch sy'n ber**




Pan ofynnwyd pa mor effeithiol y bu eu colegau â'u hymdrechion i sicrhau bod dysgwyr yn deall aflonyddu rhywiol ac yn parchu'r angen am gydsyniad rhywiol mewn cydberthnasoedd iach, dywedodd dros draean (35%) fod eu coleg 'rhywfaint yn effeithiol', a dewisodd 21% 'hynod effeithiol' neu 'effeithiol iawn'. Dim ond un o bob wyth o'r ymatebwyr (13%) a grybwyllodd fod eu coleg 'ddim yn effeithiol o gwbl' neu 'ddim yn effeithiol iawn'. Nid oedd bron i draean (32%) yn gwybod neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

**Ffigur 2: Ymatebion yr arolwg i aelodau staff AB i'r cwestiwn  - Pa mor effeithiol ydych chi'n credu y bu eich coleg â'i ymdrechion i sicrhau bod dysgwyr yn deall aflonyddu rhywiol ac yn parchu'r angen am gydsyniad rhywiol mewn cydberthnasoedd iach?**




Pan ofynnwyd beth eraill y dylai eu colegau fod yn ei wneud i atal a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng myfyrwyr, roedd aelodau staff yn awgrymu cynnig addysg ychwanegol i ddysgwyr ar aflonyddu rhywiol a chydberthnasoedd iach yn fwyaf cyffredin, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol i aelodau staff.

> *Dylai fod pecyn tiwtorial cynhwysfawr sy'n cwmpasu'r mathau hyn o bynciau. Dylai sgyrsiau iach gael eu hannog a'u cefnogi. Dylai staff gael eu hyfforddi'n dda a'u cefnogi gan arbenigwyr. Mae angen i bobl ifanc gael eu cefnogi i ddysgu beth sy'n ymddygiad derbyniol a beth sy'n annerbyniol.* (Ymatebydd i'r arolwg staff)

Mae'r rhan fwyaf o golegau'n defnyddio negeseuon ar sgriniau arddangos digidol ac ar dudalennau glanio pyrth dysgwyr neu wefannau yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol. Yn aml, mae'r rhain yn canolbwyntio ar les ac ymddygiad, er enghraifft bwlio ac aflonyddu neu ddathlu amrywiaeth. Mae ychydig o golegau'n annog aelodau staff a dysgwyr yn rhagweithiol i 'dynnu sylw' at ymddygiad annerbyniol a rhoi gwybod am unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol posibl. Yn y lleiafrif o golegau, mae arweinwyr wedi cyflwyno neu wedi cryfhau gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn ddiweddar, er enghraifft gydag ymgyrchoedd dynodedig sydd â'r nod i sefydlu diwylliant 'dim esgus'. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith datblygiadau mor ddiweddar.

> *Rydym yn datblygu ymgyrch ar hyn o bryd i ymdrin â hyn a materion lles/diogelwch eraill sydd wedi dod yn fwy cyffredin ar ôl y pandemig.* (Ymatebydd i'r arolwg staff)

## Dysgu proffesiynol i aelodau staff

Mae hyfforddiant diogelu cyffredinol wedi'i hen sefydlu ar draws y sector AB yng Nghymru. Mae dysgu proffesiynol a gweithgareddau hyfforddiant yn helpu aelodau staff i gydnabod arwyddion rhybudd niwed emosiynol, esgeulustod, ymosodiadau a cham-drin corfforol a rhywiol, yn ogystal â sut dylent ryngweithio â dysgwyr. Mae lleiafrif o golegau'n gweithio tuag at ddod yn sefydliadau sy'n ystyriol o drawma ac, fel rhan o'r gwaith hwn, maent yn canolbwyntio ar gydnabod pan fydd ymddygiad yn newid o fod yn iach i fod yn niweidiol. Mae ychydig o golegau'n cynnig hyfforddiant pellach i helpu aelodau staff i feithrin a chynnal diwylliant cadarnhaol, iach ymhlith dysgwyr ac aelodau staff. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ymagwedd anghyson tuag at ymgymryd â dysgu proffesiynol ar gydberthnasoedd iach, aflonyddu rhywiol a chasineb at fenywod, a'i ledaenu.

Adeg ein hymweliadau, nid oedd llawer o raglenni hyfforddiant staff yn mynd i'r afael â chydberthnasoedd ac aflonyddu rhywiol yn ddigon da. Nid oedd gan golegau drefniadau ar waith i sicrhau bod aelodau staff parod â hyfforddiant addas yn cefnogi pob un o'r dysgwyr trwy ofyn iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau am ffurfio a chynnal cydberthnasoedd iach. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond ychydig o ddysgwyr ledled Cymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygiad personol felly yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

Roedd ychydig o golegau wedi dechrau cyflwyno'r agweddau hyn yn eu rhaglenni dysgu proffesiynol yn ddiweddar ac roedd lleiafrif ohonynt yn cynllunio i wneud hynny. Roedd enghreifftiau o weithgareddau dysgu proffesiynol a oedd wedi'u cynllunio neu wedi'u cyflwyno'n ddiweddar gan golegau gwahanol yn cynnwys hyfforddiant ar gam-drin rhwng cyfoedion, cyfiawnder adferol, cydberthnasoedd iach a diwylliannau cadarnhaol. Mewn ychydig o achosion, roedd aelodau staff unigol, gan gynnwys aelodau staff addysgu a chymorth i ddysgwyr, wedi nodi ac ymgymryd â chyrsiau datblygiad proffesiynol allanol yn rhagweithiol, a oedd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

**Hyfforddiant i staff coleg**

Yn dilyn digwyddiad trasig nad oedd yn cynnwys y coleg, comisiynodd uwch arweinwyr hyfforddiant arbenigol i helpu aelodau staff y coleg i nodi ac ymateb i gam-drin rhwng cyfoedion, ymddygiad rhywiol niweidiol, bwlio a chellwair. Teimlai uwch arweinwyr yn y coleg fod yr hyfforddiant yn werthfawr dros ben, gan gynnig eglurder i aelodau staff ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol, yn ogystal â sut y dylent ymateb. Yn y gorffennol, mae'n debygol y byddai aelodau staff unigol wedi ymateb i ddigwyddiadau tebyg mewn modd anghyson ac na fyddant wedi cael eu hatgyfeirio i'r arweinwyr diogelu bob tro, lle bo hynny'n briodol. Diolch i'r hyfforddiant hwn, mae'r rhan fwyaf o aelodau staff mewn sefyllfa dda i gydnabod aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Erbyn hyn, caiff mwy o achosion o aflonyddu rhywiol eu hatgyfeirio'n briodol i dîm diogelu'r coleg, sy'n eu galluogi i nodi unrhyw dueddiadau newydd, yn ogystal ag ymateb i achosion unigol.

Mae ychydig o golegau wedi cynnal digwyddiadau hyfforddiant penodol i helpu eu haelodau staff i nodi aflonyddu rhywiol yn well, sydd wedi helpu i gynyddu nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi a'u hatgyfeirio. Roedd tua hanner (53%) yr ymatebwyr i'n harolwg staff AB yn fodlon bod lefel yr hyfforddiant sydd ar gael i'w helpu i nodi'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol 'yn iawn fwy neu lai', gyda 42% yn datgan 'nid oes digon'. Pan ofynnwyd am yr hyfforddiant/dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt i helpu dysgwyr coleg i ddeall aflonyddu rhywiol, cydsyniad a chydberthnasoedd iach, roedd 45% o aelodau staff AB a ymatebodd yn teimlo 'nid oes digon' ar gael ac roedd 43% yn teimlo bod lefel yr hyfforddiant 'yn iawn fwy neu lai'.

> *Hyfforddi staff yn well, cael wythnos benodol lle mae pob tiwtor personol yn ymdrin â hyn mewn tiwtorial grŵp. Cael rhagor o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr, gan gynnwys ble i gael cymorth.*
> (Ymatebydd i'r arolwg staff)

Roedd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr yn teimlo 'nid oes digon' o hyfforddiant i staff ar sut i ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol rhwng dysgwyr coleg, gyda 43% yn datgan bod lefel yr hyfforddiant 'yn iawn fwy neu lai'. Ymhlith yr aelodau staff a oedd yn fodlon graddio eu hyder wrth ymdrin ag unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol rhwng dysgwyr yn y dyfodol, dywedodd 28% eu bod yn 'hyderus dros ben' neu'n 'hyderus iawn' ac roedd 49% 'rhywfaint' yn hyderus. Dim ond 23% a grybwyllodd eu bod 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn hyderus iawn'. Yn ystod ein hymweliadau, esboniodd ychydig o aelodau staff gwrywaidd eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn ymdrin â materion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr.

> *Gwnewch yn siŵr fod yr holl staff wedi'u hyfforddi i ymdrin ag ef, yn hytrach na staff cymorth a gwasanaethau dysgwyr yn unig.*
> (Ymatebydd i'r arolwg staff)

Roedd dros hanner (56%) o ymatebwyr yr arolwg staff yn teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gymorth ac arweiniad addas i'w helpu i ymdrin ag unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Dim ond 12% a grybwyllodd fod unrhyw gymorth ac arweiniad felly yn annigonol neu nad oeddent ar gael; byddai 19% yn hoffi pe byddai'r cymorth ac arweiniad sydd ar gael yn fwy defnyddiol ac nid oedd 14% yn siŵr.

Mae ychydig o golegau'n mynd i'r afael â llecynnau o rywiaeth, aflonyddu rhywiol a/neu ddiwylliannau misogynistaidd trwy drefnu gweithdai. Yn gyffredinol, caiff y rhain eu cyflwyno gan sefydliadau allanol i'r carfanau o ddysgwyr dan sylw a'r aelodau staff sy'n gweithio â nhw. Fodd bynnag, nid oes digon o golegau'n dwyn ymagwedd ragweithiol tuag at ddarparu hyfforddiant i aelodau staff cyn i achosion neu broblemau ddod i'r amlwg.

Dim ond 6% o'r ymatebwyr i'n harolwg aelodau staff AB oedd yn ymwybodol o unrhyw asiantaethau allanol yn dod i mewn i'w colegau i gyflwyno hyfforddiant neu ddysgu proffesiynol i staff ar faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr, ac roedd 2% ohonynt yn ymwybodol y bu asiantaethau allanol i mewn i helpu i ddatblygu neu rannu adnoddau perthnasol. Nid oedd mwyafrif (64%) yr ymatebwyr yn gwybod a oedd asiantaethau allanol wedi dod i mewn i helpu ag

unrhyw faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Crybwyllodd llawer o staff bod angen amlwg am hyfforddiant ac adnoddau penodol i staff a dysgwyr mewn colegau addysg bellach.

> *Rwy'n credu bod angen rhagor o hyfforddiant arnom, hyfforddiant pwrpasol ar gyfer aflonyddu rhywiol.* (Ymatebydd i'r arolwg staff)

> *Mae angen mwy o ddigwyddiadau hyfforddiant i staff arnom a gweithgareddau i ymgysylltu â PHOB myfyriwr.* (Ymatebydd i'r arolwg staff)

# Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o dystiolaeth o holiadur cenedlaethol, dienw i aelodau staff AB, ynghyd ag ymweliad â phob un o'r 12 coleg AB yng Nghymru.

Roedd ymweliadau â'r colegau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfod â phrif swyddog gweithredol/pennaeth y coleg
- Cyfarfod grŵp ffocws â dysgwyr benywaidd
- Cyfarfod grŵp ffocws â dysgwr gwrywaidd
- Cyfarfod grŵp ffocws â dysgwyr LHDTC+
- Cyfweliad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol
- Cyfweliad ag athrawon ac aelodau staff cymorth
- Craffu ar ddogfennau perthnasol y coleg, gan gynnwys polisïau, cynlluniau, cofnodion ac adroddiadau

Gofynnwyd i golegau nodi hyd at 12 o ddysgwyr a fu yn y coleg am flwyddyn neu fwy i gymryd rhan ym mhob un o'r tri chyfarfod â grwpiau ffocws. Roedd gweithgareddau'r grwpiau ffocws yn gymysgedd o drafodaethau llafar a gweithgareddau ysgrifennu. Roedd hyn er mwyn galluogi i ddysgwyr leisio eu barn a'u profiadau, wrth ganiatáu i ddysgwyr tawelach, llai hyderus neu fwy mewndroëdig gofnodi eu meddyliau ar yr un pryd. Roedd yr holl gyfraniadau gan ddysgwyr yn ddienw; ni ofynnodd arolygwyr am enwau'r dysgwyr ac nid oedd unrhyw aelodau staff eraill yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y grwpiau ffocws.

## Darparwyr yr ymwelwyd â nhw

Coleg Penybont
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg y Cymoedd
Coleg Gwent
Coleg Sir Gâr
Coleg Gŵyr Abertawe
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp Colegau NPTC
Coleg Sir Benfro
Coleg Catholig Dewi Sant
Y Coleg Merthyr Tudful

## Nodyn am yr holiadur staff

Dosbarthwyd yr holiadur i aelodau staff AB trwy gais ysgrifenedig i brif weithredwyr/penaethiaid colegau yn gofyn iddynt rannu dolen i'r arolwg electronig â'u haelodau staff. Roedd yr arolwg ar agor i'w lenwi rhwng 21 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2022. Cafwyd cyfanswm o 587 o ymatebion. O'r rhain, nododd 50.4% o'r aelodau

staff eu bod yn gweithio fel darlithydd/athro/tiwtor; roedd gan 16.5% o’r ymatebwyr rolau arweinydd/rheolwr canol; roedd 15.3% mewn rolau cymorth i ddysgwyr; roedd 14.6% mewn rolau cymorth busnes, ac roedd gan 5.2% rolau uwch arweinydd/rheolwr; dewisodd 3.6% o’r ymatebwyr ‘arall’ o ran eu rôl bresennol. Roedd yr ymatebwyr yn gallu nodi bod ganddynt fwy nag un rôl, er enghraifft athro ac arweinydd canol. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ag ymatebion caeedig a phenagored, a dadansoddwyd yr ymatebion agored i nodi themâu allweddol.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion** | Ymddygiad parhaus a dieisiau o natur rywiol gan blentyn tuag at blentyn arall sy'n gallu digwydd ar-lein, ac oddi ar-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: amharu ar urddas plentyn, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, yn israddol neu wedi'i fychanu a/neu greu amgylchedd gelyniaethus, tramgwyddus neu rywioledig. (Yr Adran Addysg, 2021) |
| **Continwwm Hackett** | Mae continwwm Hacket yn cyflwyno ymddygiad wedi'i rywioli fel amrediad o 'normal' i 'amhriodol', 'problemus', 'camdriniol' a 'threisgar'. |
| **Dylanwadwr** | Rhywun sy'n dylanwadu; rhywun sy'n ysbrydoli neu'n arwain gweithredoedd pobl eraill, yn aml trwy ennyn diddordeb trwy bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol. |
| **Memyn** | Eitem ddifyrus neu ddiddorol (fel llun neu fideo â phennawd) neu fath o eitemau sy'n cael lledaenu'n eang ar-lein, yn enwedig trwy gyfryngau cymdeithasol. |
| **Pornograffi dial** | Rhannu deunyddiau rhywiol, preifat, naill ai lluniau neu fideos, o rywun arall heb ganiatâd ac â'r diben o achosi embaras neu drallod |
| **Rheolaeth drwy orfodaeth** | Mae Cymorth i Ferched yn diffinio rheolaeth drwy orfodaeth fel gweithred neu batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, codi cywilydd a dychryn neu gam-drin arall sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr. Mae'r ymddygiad rheolaethol hwn wedi'i lunio i wneud yr unigolyn yn ddibynnol trwy ei (h)ynysoli oddi wrth gymorth, camfanteisio arno/arni, dwyn ei (h)annibyniaeth oddi arno/arni a rheoleiddio ei (h)ymddygiad bob dydd. (Cymorth i Ferched, 2022) |
| **Uwchsbecian** | Tynnu lluniau neu fideos dan ddillad rhywun heb ganiatâd |
| **Ymddygiad rhywiol niweidiol** | Gellir diffinio Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol fel a ganlyn: ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n ddatblygiadol amhriodol, y gallent fod yn niweidiol tuag atyn nhw eu hunain neu blant a phobl ifanc eraill neu fod yn cam-drin plentyn neu berson ifanc arall neu oedolyn. Mae'r diffiniad hwn o Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol yn cynnwys ymddygiadau trwy gyffwrdd neu heb gyffwrdd fel rhagbaratoi, arddangosiaeth, sbecian a secstio neu recordio delweddau o weithredoedd rhywiol trwy ffonau clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2020) |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Cymorth i Ferched (2022) *What is coercive control?* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/coercive-control/ [Cyrchwyd 2 Mawrth 2023]

Estyn (2021) *Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-12/Profiadau%20o%20aflonyddu%20rhywiol%20rhwng%20cyfoedion%20ymhlith%20disgyblion%20ysgolion%20uwchradd%20yng%20Nghymru.pdf [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

Llywodraeth Cymru (2021*) Pecyn cymorth 'Codi Llaw, Codi Llais'* https://hwb.gov.wales/repository/resource/e5216547-4325-4f05-b820-e65a248bc6c5/en?catalogs=50f72adb-cdf7-4da9-a01a-d9b5ecafd264&kiosk=1&sort=recent&strict=1 [Cyrchwyd 27 Hydref 2022]

Llywodraeth Cymru, NSPCC Cymru a Barnardo's Cymru (2020) *Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

Llywodraeth y DU, Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2020) *2020 Sexual Harassment Survey* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1002873/2021-07-12_Sexual_Harassment_Report_FINAL.pdf [Cyrchwyd 28 Hydref 2022]

Llywodraeth y DU, Yr Adran Addysg (2021*) More support for schools and colleges to tackle sexual abuse* https://www.gov.uk/government/news/more-support-for-schools-and-colleges-to-tackle-sexual-abuse [Cyrchwyd 27 Hydref 2022]

Menywod y Cenhedloedd Unedig (2021*) Prevalence and reporting of sexual harassment in UK public spaces* https://www.unwomenuk.org/site/wp-content/uploads/2021/03/APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf [Cyrchwyd 6 Chwefror 2023]

Ofsted (2021) *Review of Sexual Abuse in Schools and Colleges.* Llundain: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

Our Streets Now (Heb ei ddyddio) *PSH Impacts.* [Ar-lein]. Ar gael o: ca21b2_8ed85f7e97d743338410a2baab5f6dec.pdf (usrfiles.com) [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

Reclaim the Campus (2021) *Reclaim the Campus Campaign* https://www.reclaimthecampus.com/the-reclaim-report [Cyrchwyd 27 Hydref 2022]

Ringrose, J.,Mendes, K., Horeck, T. (2020) *Online Sexual Harassment Comprehensive Guidance for Schools* https://www.ascl.org.uk/ASCL/media/ASCL/Our%20view/IBSHA/Online-sexual-harassment-Comprehensive-Guidance-for-Schools.pdf [Cyrchwyd 27 Hydref 2022]

Senedd Cymru (2022*) Mae'n effeithio ar bawb: Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.cymru/media/qvsdqe4w/cr-ld15251-w.pdf [Cyrchwyd 27 Hydref 2022]

Tŷ'r Cyffredin (2022) *Sexual harassment and violence in further and higher education* [Ar-lein]. Ar gael o: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9438/CBP-9438.pdf [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

UCL Institute of Education (2021) *Young peoples' rates of reporting online sexual harassment and abuse are 'shockingly low'* https://www.ucl.ac.uk/ioe/news/2021/dec/young-peoples-rates-reporting-online-sexual-harassment-and-abuse-are-shockingly-low [Cyrchwyd 28 Hydref 2022]

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (2019) *Sexual Violence in Further Education.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://feweek.co.uk/wp-content/uploads/2019/06/June-Report-Sexual-Violence-in-FE.pdf [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]

WebMD (2018) *Sexual Assault Has Long-Term Mental, Physical Impact* https://www.webmd.com/women/news/20181003/sexual-assault-has-long-term-mental-physical-impact [Cyrchwyd 26 Hydref 2022]